# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 10 Mawrth 2021

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Papur(au) i'w nodi

(09.00) (Tudalennau 1 - 2)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2021.

**2.1 PTN 1 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ynghylch Cynnig Cyllideb Atodol diwygiedig - 2 Mawrth 2021**

(Tudalennau 3 - 33)

**2.2 PTN 2 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ynghylch cyllid a ddyrannwyd i gefnogi busnes yn ystod y pandemig - 2 Mawrth 2021**

(Tudalennau 34 - 40)

**2.3 PTN 3 - Llythyr gan Bwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad Senedd yr Alban at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys: Cyllideb Llywodraeth yr Alban 2021-22 - 4 Mawrth 2021**

(Tudalennau 41 - 42)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2.4 PTN 4 – Llythyr ar y cyd gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, a'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ynghylch porthladdoedd rhydd yng Nghymru – 4 Chwefror 2021**

(Tudalennau 43 – 44)

**2.5 PTN 5 – Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 – Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyllid – 5 Mawrth 2021**

(Tudalennau 45 – 64)

## 3 Gwaith Gwaddol y Pwyllgor Cyllid: Sesiwn dystiolaeth

(09.00-10.20) (Tudalennau 65 – 83)

Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr Trysorlys

Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid

Debra Carter, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid Strategol Llywodraeth Leol

Marcella Maxwell, Dirprwy Gyfarwyddwr Caffael Masnachol a Strategaeth Grwp

**Papurau ategol:**

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

## 4 Offeryn statudol ym maes treth: Sesiwn dystiolaeth

(10.20-10.30) (Tudalennau 84 – 87)

**Papurau ategol:**

FIN(5)-08-21 P1 – Adroddiad

FIN(5)-08-21 P2 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at y Llywydd – 3 Mawrth 2021

SUB-LD14189 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2021

SUB-LD14189-EM – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2021 – Memorandwm Esboniadol

**Egwyl (10.30-11.00)**

## 5 Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Sesiwn dystiolaeth

(11.00-12.00) (Tudalennau 88 - 104)

Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Geth Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyfansoddiad, Swyddfa Cymru

**Papurau ategol:**

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod ar 17 Mawrth 2021

(12.00)

## 7 Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Trafod y dystiolaeth

(12.00-12.10)

## 8 Gwaith Gwaddol y Pwyllgor Cyllid: Trafod y dystiolaeth

(12.10-12.20)

## 9 Offeryn statudol ym maes treth: Trafod y dystiolaeth

(12.20-12.25)

## 10 Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft: Trafod yr adroddiad drafft

(12.25-12.50) (Tudalennau 105 - 178)

**Papurau ategol:**

FIN(5)-08-21 P3 - Adroddiad drafft ar y trafodaethau ynghylch yr ymgynghoriad ar y Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft

FIN(5)-08-21 P4 - Bil Archwiliad Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft

FIN(5)-08-21 P5 - Nodiadau Esboniadol

FIN(5)-08-21 P6 - Nodyn Cyngor Cyfreithiol

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 3 Mawrth 2021

Amser: 09.30 - 11.01

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11122

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Mike Hedges AS<br>Mark Isherwood AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Mark Reckless AS |
| Tystion: | Suzy Davies AS, Comisiynydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 PTN 1 - Llythyr gan y Gweinidog Addysg ynghylch Memorandwm Esboniadol wedi'i ddiweddaru ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Ymateb diwygiedig i argymhellion adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid - 23 Chwefror 2021

## 3 Comisiwn y Senedd - Dull o gynllunio prosiectau: Sesiwn dystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Suzy Davies AS, y Comisiynydd dros y Gyllideb a Llywodraethu; Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd; a Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid y Senedd ynghylch dull y Comisiwn o ran cynllunio prosiectau.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Comisiwn y Senedd - Dull o gynllunio prosiectau: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Trydedd Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21: Trafod yr adroddiad drafft

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft â rhai mân newidiadau.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/RE/0964/21

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid,
Senedd Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd CF99 1NA

2 Mawrth 2021

Annwyl Llyr,

Tynnwyd fy sylw at y ffaith nad oedd Cynnig y Gyllideb Atodol, a osodwyd ddydd Mawrth 16 Chwefror, yn cynnwys pwynt ynghylch Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Fel yr ystyriwyd ac y cymeradwywyd ef gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 15 Ionawr, roedd y Memorandwm Esboniadol a ddarparwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn nodi'r newid y mae gofyn ei wneud i'r disgrifiad o'i adnoddau cronnus yng nghynnig y gyllideb i ganiatáu cadw arian dros ben cynlluniau pensiwn. Oherwydd amryfusedd, cafodd y newid hwn, ynghyd â'r diwygiadau canlyniadol i ofynion adnoddau DEL ac AME Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru eu hepgor o Gynnig y Gyllideb Atodol.

Amgaeeir y Cynnig wedi'i gywiro, gyda'r newidiadau wedi'u gwneud i Ran 2 o Atodlen 4 a Thablau 2 a 3 o Atodlen 6. Caiff hwn ei gyflwyno heddiw i ddisodli Cynnig y Gyllideb Atodol a osodwyd ar 16 Chwefror. Gan fod y newidiadau'n adlewyrchu'r Memorandwm Esboniadol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Cyllid, hyderaf na fydd hyn yn effeithio ar gyhoeddi adroddiad y Pwyllgor ar y Drydedd Gyllideb Atodol er mwyn caniatáu i'r cynnig gael ei gynnig ar 9 Mawrth yn ôl y bwriad.

Rwy'n ymddiheuro am yr amryfusedd hwn a gwerthfawrogaf eich help i ddatrys y mater hwn.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Cynnig y Gyllideb Atodol 2020-21

***Gosodwyd gerbron Senedd Cymru gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd***

***Mawrth 2021***

## Cynnig y Gyllideb Atodol

**1. Gofynnir i'r Senedd gytuno ar y canlynol:**

- Gwneir y penderfyniad hwn ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 gan Senedd Cymru ("y Senedd") yn unol ag Adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf").

2. Dylai'r Cynnig Atodol hwn ar gyfer y Gyllideb gael ei ddarllen ochr yn ochr â dogfennau'r gyllideb a gyhoeddwyd ar 16 Chwefror 2021.

Llywodraeth Cymru

3. Awdurdodir Llywodraeth Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 yr Atodlen honno;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 2 o bob Rhan o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer pob Rhan o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn Atodlen 1, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

4. Er gwaethaf paragraffau 2(a) a (b), caiff yr adnoddau y gellir eu defnyddio ar gyfer y gwasanaethau a'r dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1 (neu, fel y bo'n briodol, yng Ngholofn 2 o bob Rhan o Atodlen 2), fod yn uwch na'r swm a bennir yn y cofnod cyfatebol yng Ngholofn 2 o Atodlen 1 (neu, fel y bo'n briodol, ym mhob rhan o Atodlen 2)-

(a) os bodlonir yr amod cyntaf, yn achos adnoddau heb gynnwys adnoddau cronnus, neu

(b) os bodlonir yr ail amod, yn achos adnoddau cronnus.

5. Yr amod cyntaf yw nad yw cyfanswm yr adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2021 ar gyfer yr holl wasanaethau a dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1 yn uwch na chyfanswm y symiau a bennir yng Ngholofn 2 o'r Atodlen honno.

6. Yr ail amod yw nad yw cyfanswm yr adnoddau cronnus a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2021 ar gyfer yr holl wasanaethau a dibenion a bennir yng Ngholofn 2 o Atodlen 2 yn uwch na chyfanswm y symiau a bennir ar gyfer pob rhan o'r Atodlen honno.

7. O dan Adran 126A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gall cynnig cyllidebol ar gyfer blwyddyn ariannol gynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r adnoddau y disgwylir iddynt gael eu defnyddio gan unrhyw gorff sy'n gorff dynodedig mewn perthynas â pherson perthnasol. Mae adnoddau'r cyrff sydd wedi'u dynodi o dan Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 (fel y'i diwygiwyd) wedi'u cynnwys yn y cynnig hwn ar gyfer y gyllideb atodol.

Comisiwn y Senedd

8. Awdurdodir Comisiwn y Senedd -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 1 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y mannau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 1 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 1 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

9. Awdurdodir Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 2 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y mannau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 2 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 2 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

<u>Swyddfa Archwilio Cymru</u>

10. Awdurdodir Swyddfa Archwilio Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 3 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y mannau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 3 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 3 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

<u>Manyleb y Categorïau o Adnoddau Cronnus</u>

11. Mae’r categorïau o adnoddau cronnus a restrir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, ac yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 4, yn gategorïau penodedig at ddibenion Adran 120(2)(a) o’r Ddeddf.”

## Crynodeb o'r Gofynion Adnoddau a Chyfalaf

*Gweinidogion Cymru*

| **Cwmpas** | **Adnoddau (£000)** | **Adnoddau Cronnus (£000)** |
|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 10,466,690 | 68,636 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 5,945,017 | 29,537 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 4,195,263 | 84,840 |
| Addysg | 3,574,858 | 274,511 |
| Iechyd Meddwl, Llesiant a’r Gymraeg | 413,580 | 4,426 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 639,838 | 106,379 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 453,502 | 411,131 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau y Gofynnir Amdanynt a’r Incwm Cronnus mewn perthynas â Gweinidogion Cymru** | **25,688,748** | **979,460** |

*Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol*

| **Cwmpas** | **Adnoddau (£000)** | **Adnoddau Cronnus (£000)** |
|---|---|---|
| Comisiwn y Senedd | 60,625 | 220 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 5,270 | 991 |
| Swyddfa Archwilio Cymru | 8,223 | 14,270 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau a'r Incwm Cronnus ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol** | **74,118** | **15,481** |

## Atodlen 1 – Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**<br><br>I’w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.<br><br>Cyflenwi gwasanaethau GIG craidd a gwasanaethau GIG wedi'u targedu, gan gynnwys amhariadau a darpariaethau; cefnogi addysg a hyfforddiant i weithlu'r GIG a hosbisau; noddi cyrff iechyd cyhoeddus, rhaglenni iechyd y cyhoedd; trefniadau effeithiol i baratoi ar gyfer argyfwng iechyd; gofal a chymorth cymdeithasol, partneriaethau ac integreiddio, gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy, Gofal Cymdeithasol Cymru; cyllid ar gyfer y Comisiynydd Pobl Hŷn; cyllid ar gyfer y Comisiynydd Plant a CAFCASS; gwariant ar gefnogi plant ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol. | **10,466,690** |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Tai a Llywodraeth Leol**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar dai, llywodraeth leol a chymunedau, gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.<br><br>Cyllid i gefnogi llywodraeth leol, gan gynnwys cyllid cyfalaf cyffredinol a gwasanaethau prisio; meithrin democratiaeth leol; cefnogi cydweithio, diwygio a gwella. Cyllid ar gyfer cynllunio a rheoleiddio a thai i gynyddu'r cyflenwad a'r dewis o dai fforddiadwy a thai'r farchnad; i helpu pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi drwy rhaglen Cefnogi Pobl, y rhaglen Byw'n Annibynnol a'r Gronfa Gofal Integredig ac i atal digartrefedd. Cyllid i gefnogi cymunedau, gan gynnwys Adfywio, Cynhwysiant Ariannol a Chynhwysiant Digidol; y Gwasanaethau Tân ac Achub a Chydnerthedd. Ariannu Academi Wales, Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Estyn. Hefyd yn cynnwys unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol. | **5,945,017** |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Yr Economi a Thrafnidiaeth**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar yr Economi a Thrafnidiaeth, gan gynnwys hybu a chefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol busnesau, unigolion, cymunedau a lleoedd yng Nghymru.<br><br>Gwariant ar sectorau a datblygu busnes rhanbarthol; entrepreneuriaeth a gwybodaeth fusnes; allforio, masnach a mewnfuddsoddi; darparu cymorth i wella a datblygu seilwaith digidol; darparu seilwaith TGCh a seilwaith sy'n gysylltiedig ag eiddo; rhaglenni corfforaethol a strategol; Banc Datblygu Cymru; Cyllid Cymru; gweithrediadau traffyrdd a chefnffyrdd; gwella a chynnal y rhwydwaith cefnffyrdd; gwasanaethau a buddsoddiadau ffyrdd, rheilffyrdd, awyr a môr; teithio cynaliadwy; gwella diogelwch ar y ffyrdd; dysgu’n seiliedig ar waith; darparu cymorth ar gyfer sgiliau; polisi sgiliau; cyflogaeth a sgiliau; dewisiadau addysgol a gyrfaol ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol sy’n rhoi budd economaidd ehangach i Gymru. | **4,195,263** |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Addysg**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Addysg, gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.<br><br>Gwariant ar safonau addysg a hyfforddiant, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd, cwricwlwm, addysgu ac arweinyddiaeth, cymwysterau, addysg ôl-16, addysg uwch, grant datblygu disgyblion, TGCh a systemau rheoli gwybodaeth, a darpariaeth TG ac ystadau; ymgysylltiad a chyflogaeth ieuenctid; llesiant plant a phobl ifanc; cymorth i ddysgwyr ôl-16; ennyn diddordeb disgyblion; addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog; cymorth cyflawni; ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol. | **3,574,858** |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Iechyd Meddwl, Llesiant a’r Gymraeg**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Iechyd Meddwl, Llesiant a’r Gymraeg gan gynnwys hyrwyddo a chefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol busnesau, unigolion, cymunedau a lleoedd yng Nghymru.<br><br>Gwariant ar gyflawni polisïau iechyd meddwl a deddfwriaeth a chyflawni cynllun gweithredu'r strategaeth camddefnyddio sylweddau; yr Asiantaeth Safonau Bwyd; rhaglenni iechyd y cyhoedd; datblygu a gweithredu ymchwil a datblygu er budd cleifion a'r cyhoedd; gofal a chymorth cymdeithasol, twristiaeth a Digwyddiadau Cymru i hyrwyddo Cymru; cefnogi diwylliant a’r celfyddydau drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Cymru Greadigol ac eraill; cymorth i ddiwylliant a chwaraeon lleol; y cyfryngau a chyhoeddi; cefnogi’r amgylchedd hanesyddol a naturiol drwy Cadw, Gerddi Botaneg Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru; hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy Chwaraeon Cymru ac eraill; cefnogi’r Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg; ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol sy’n rhoi budd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach i Gymru. | **413,580** |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.<br><br>Datblygu a gweithredu polisi a rhaglenni cyffredinol ar ddatblygu cynaliadwy a rheoli cyfoeth naturiol, amaethyddiaeth, bwyd a'r môr; datblygu a gweithredu polisi newid yn yr hinsawdd, effeithlonrwydd ynni, Twf Gwyrdd, economi gylchol, seilwaith gwyrdd, diogelu'r amgylchedd, perygl o lifogydd a pherygl i'r arfordir, a pholisi a deddfwriaeth dŵr a charthion; Cynllun Cymunedau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi; darparu polisïau gwarchod natur a choedwigaeth; noddi a rheoli cyrff cyflawni; datblygu sylfaen dystiolaeth briodol i ategu gwaith Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig.; gwarchod iechyd anifeiliaid, planhigion a gwenyn a datblygu polisïau addasu genetig; hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchodedig a mynediad ehangach at fannau gwyrdd; gweinyddu a chyflawni'r Polisi Amaethyddol Cyffredin; darparu'r rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig; cefnogi newydd-ddyfodiaid i ffermio, ffermwyr a chymunedau gwledig Cymru; datblygu ar sail tystiolaeth ar gyfer materion gwledig; datblygu a rheoli môr, pysgodfeydd a dyframaethu Cymru, gan gynnwys gorfodi pysgodfeydd Cymru; datblygu a marchnata bwyd a diod Cymru, ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol. | **639,838** |

| **Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus)** | |
|---|---|
| ***Colofn 1*** <br><br> *Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2*** <br><br> *Swm £000* |
| **Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu** <br><br> I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Wasanaethau Canolog a Gweinyddu ac ar hyrwyddo cydraddoldeb; atal trais; cynghori ac eiriolaeth; cydnerthedd ac argyfyngau sifil posibl; cyfiawnder ieuenctid; swyddogion cymorth cymunedol; y rhaglen cyfleusterau cymunedol a chefnogi'r sector gwirfoddol, datblygu rhyngwladol a chysylltiadau rhyngwladol. <br><br> Gwariant ar gostau rhedeg Llywodraeth Cymru (gan gynnwys costau staff; gweinyddu cyffredinol; rheoli asedau; cyfalaf a thaliadau cyfalaf; costau TG; gwella busnes; a darpariaethau ar gyfer ymddeol yn gynnar a phensiynau; costau etholiadau a refferenda; gwybodaeth ystadegol ac ymchwil; cyllido cyrff allanol; cyfrifoldebau cyllidol (gan gynnwys trethi datganoledig a benthyca); gwasanaethau caffael (Cymru gyfan); digwyddiadau a chyfathrebu corfforaethol; ymholiadau ac ymchwiliadau; y Gronfa Buddsoddi i Arbed; y Gronfa Rhyddhau Tir: rheoli'r modd y darperir cyllid Ewropeaidd yng Nghymru; atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; cynghori ac eiriolaeth; cydnerthedd ac argyfyngau sifil posibl; glasbrintiau troseddwyr benywaidd a chyfiawnder ieuenctid; swyddogion cymorth cymunedol; y rhaglen cyfleusterau cymunedol; cefnogi'r sector gwirfoddol; sefydlu a chynnal safleoedd Sipsiwn/Teithwyr, hyrwyddo datblygu rhyngwladol a chysylltiadau rhyngwladol ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol. | **453,502** |

## Atodlen 2 – Defnydd o adnoddau cronnus gan Weinidogion Cymru

### Rhan 1: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o dan y Cynllun Rheoleiddio Prisiau Fferyllol; incwm mewn perthynas â setliadau hawliadau cyfreithiol; tâl am lety, nwyddau a gwasanaethau i gleifion preifat, cleifion y GIG, awdurdodau lleol ac eraill; ad-daliadau cyllid Buddsoddi i Arbed gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru; incwm oddi wrth Lywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, yr Adran Iechyd, adrannau llywodraeth eraill a'r Undeb Ewropeaidd; cynlluniau creu incwm; incwm anweithredol drwy werthu tir, adeiladau, cerbydau, offer ac eiddo, ac adennill TAW; incwm o gynlluniau a chytundebau ad-dalu. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys gwariant ar wasanaethau iechyd sylfaenol a chymunedol; gwariant gan Ymddiriedolaethau GIG Cymru, Byrddau Iechyd Lleol a darparwyr gofal iechyd cysylltiedig yn prynu neu'n caffael asedau sefydlog; cefnogaeth i ddarparu a gweinyddu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **68,636** |

**Rhan 2: Tai a Llywodraeth Leol**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae’r adnoddau cronnus yn cynnwys arian grant uniongyrchol neu anuniongyrchol oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys daliadau ac adennill taliadau grant ac adennill TAW; ffioedd a thaliadau a godwyd am gynnal arolygiadau a gwasanaethau rheoleiddio; incwm o werthiant asedau cyfalaf; incwm o ailddosbarthu buddiannau aelodau mewn buddsoddiadau; incwm o ad-daliadau’r Grant Tai Cymdeithasol; darparu digwyddiadau hyfforddi a datblygu; ad-daliadau darparwyr hyfforddiant; taliadau am gofrestriadau deintyddol; incwm o secondiadau staff; ad-dalu benthyciadau gan gynnwys benthyciadau staff; incwm o rentu eiddo; iawndal o dan setliadau masnachol a sifil a chodi ffioedd hwyluso. | Mae’r gwasanaethau a’r dibenion yn cynnwys costau rhedeg, costau gweinyddu cyffredinol a gwariant adnoddau’r Arolygiaethau a’r Tribiwnlys Prisio; darparu ymyriadau hyfforddiant i Wasanaeth Cyhoeddus Cymru; gwariant ategol ar gymunedau mwy diogel ac adfywio; talu grantiau i awdurdodau lleol a chyrff y Trydydd Sector; pob prosiect sy’n cael arian Ewropeaidd; ac i gefnogi’r holl wariant sydd wedi’i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **29,537** |

**Rhan 3: Yr Economi a Thrafnidiaeth**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus ac arian naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd; rhentu eiddo ac incwm cysylltiedig arall; taliadau gwasanaethau busnes; cyfraniadau prosiect gan gyrff eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat; incwm o fuddsoddiadau; ad-daliadau grant a chyllid busnes ad-daladwy; incwm o werthu asedau cyfalaf; derbyniadau o astudiaethau trafnidiaeth; iawndal o dan setliadau masnachol a sifil a chodi ffioedd hwyluso; ac adennill TAW. | Pob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd ac i gefnogi'r holl wariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **84,840** |

## Rhan 4: Addysg

| ***Colofn 1***<br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o brosiectau Ewropeaidd, ymchwil a gwerthuso; breindaliadau cwricwlwm; adennill Benthyciadau Myfyrwyr; arian o gronfa Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch; gwerthu cyhoeddiadau ac adennill TAW.<br>Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys ad-daliadau ac adennill taliadau grant; incwm yn gysylltiedig â gweithgareddau ym maes gwyddoniaeth a gwyddorau bywyd; ffioedd a thaliadau a godwyd am gynnal arolygiadau a gwasanaethau rheoleiddio; darparu digwyddiadau hyfforddi a datblygu; incwm o secondiadau staff; ad-daliadau benthyciadau staff; incwm o werthiant asedau cyfalaf; adennill benthyciadau a wnaethpwyd ac unrhyw daliadau llog arnynt; adenillion a grantiau ad hoc o ffynonellau eraill. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys cefnogi prosiectau Ewropeaidd, Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, datblygu rhaglenni, gwariant cyfredol ar ymchwil a gwerthuso; i gefnogi gwariant cyfredol ar y cwricwlwm ac i gefnogi pob gwariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **274,511** |

## Rhan 5: Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg

| ***Colofn 1***<br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus ac arian naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd; ffioedd a godwyd am wasanaethau busnes; cyfraniadau prosiectau ac incwm arall gan sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat; incwm o fuddsoddiadau; ad-daliadau grantiau a chyllid busnes ad-daladwy; ffioedd mynediad ac incwm gweithredol arall ar gyfer Cadw; y Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru; Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a chyrff a noddir; Amgueddfa Cymru; Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Chwaraeon Cymru; Cyngor Celfyddydau Cymru; incwm o hysbysiadau cosb benodedig o dan Ddeddf Sgôr Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 ac o adennill TAW a threthi eraill. | Pob prosiect sy'n derbyn cyllid Ewropeaidd ac i gefnogi'r holl wariant fel y'i nodwyd yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **4,426** |

## Rhan 6: Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys arian naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys incwm o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd; incwm o'r UE i gefnogi ffermwyr a chymunedau gwledig yng Nghymru; incwm o brosiectau ffermydd gwynt; incwm o Fferm Pwllpeiran; incwm o werthu asedau cyfalaf, gan gynnwys adeiladau; incwm o adennill grantiau o'r awdurdodau lleol, cyrff y trydydd sector a chyrff eraill y sector cyhoeddus a'r sector preifat; dirwyon cosb sifil yn gysylltiedig â chynlluniau masnachu allyriadau; incwm o drwyddedau morol; incwm o achub carcasau o anifeiliaid sydd wedi'u lladd ar gyfer rheoli clefydau; grantiau ad hoc o ffynonellau eraill ac adennill TAW; arian o adrannau eraill y llywodraeth ganolog ac incwm sy'n gysylltiedig â'r Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys gwariant sy'n ymwneud â Fferm Pwllpeiran; taliadau grant, cynlluniau a ariennir yn rhannol gan adrannau eraill o'r llywodraeth; pob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd ac i gefnogi'r holl wariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **106,379** |

**Rhan 7: Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o weithgarwch gweinyddol megis: gwerthu nwyddau neu wasanaethau; gwerthu tir neu adeiladau; adennill costau; secondio staff a ffioedd staff; ad-dalu benthyciadau staff; adennill taliadau grant; ad-dalu didyniadau statudol o dan PAYE; adennill trethi gan gynnwys TAW; is-osod eiddo; gwerthu asedau gweinyddol; gwerthu nwyddau a gwasanaethau; incwm gweinyddol; incwm o wasanaethau TGCh a ddarparwyd; ad-daliadau darparwyr hyfforddiant; adennill y costau a rennir â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus; derbyniadau o grantiau adenilladwy gan gynnwys derbyniadau Buddsoddi i Arbed; ac arian naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys ariannu: costau cynnal a gwariant gweinyddol cyffredinol; cefnogi gwariant cyfalaf ar sylfaen ystadau ac asedau Llywodraeth Cymru; cefnogi cydraddoldeb; atal trais; darparu cyngor; cydnerthedd a threfniadau wrth gefn; glasbrintiau troseddwyr benywaidd a chyfiawnder ieuenctid; cefnogi’r sector gwirfoddol; swyddogion cymorth cymunedol; y rhaglen cyfleusterau cymunedol; datblygu rhyngwladol a chysylltiadau rhyngwladol; ac unrhyw brosiect sy’n cael arian Ewropeaidd. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **411,131** |

## Atodlen 3 – Gwariant Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol (heb gynnwys adnoddau cronnus)

### Rhan 1 – Comisiwn y Senedd

| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
|---|---|
| Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu Gwasanaethau’r Senedd i gefnogi Senedd Cymru ('y Senedd'); hyrwyddo'r Senedd gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a’r Bwrdd Cydnabyddiaethau Ariannol; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu swyddogaethau Comisiwn y Senedd. Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i’w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd mewn perthynas â phenderfyniadau’r Bwrdd Cydnabyddiaethau Ariannol a gwariant yn ymwneud â darpariaeth pensiynau Aelodau’r Senedd. | **60,625** |

### Rhan 2 - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
|---|---|
| Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ('yr Ombwdsmon') ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu swyddfa'r Ombwdsmon; taliadau i gymdeithas Ombwdsmyn Prydain ac Iwerddon; taliadau i'r Sefydliad Ombwdsmyn Rhyngwladol; ac eitemau anghyllidol cysylltiedig. | **5,270** |

### Rhan 3 – Swyddfa Archwilio Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
|---|---|
| Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru a’r Archwilydd Cyffredinol, ac ar weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. | **8,223** |

## Atodlen 4 – Defnydd o Adnoddau Cronnus gan Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

### Rhan 1 – Comisiwn y Senedd

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus i'w cadw yn unol ag adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd drwy waredu asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall; incwm rhenti; rhoddion; cymorth grant; ailgodi tâl; incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill. | I'w defnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog ac i'w defnyddio i dalu costau gweinyddol y Senedd. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **220** |

### Rhan 2 – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill, ac ad-dalu arian pensiwn dros ben. | I'w defnyddio ar wasanaethau cysylltiedig ac ar weinyddu gwasanaeth yr Ombwdsmon. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **991** |

**Rhan 3 – Swyddfa Archwilio Cymru**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio, ardystio grantiau a gwasanaethau cysylltiedig; grantiau a dderbynnir i ariannu gwasanaethau archwilio; adennill costau eraill sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru; amryfal incwm o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol; adennill costau, er enghraifft staff wedi'u secondio, benthyciadau i staff, taliadau lesio ceir; adennill unrhyw gostau yr eir iddynt ar ran trydydd parti; a llog a dderbynnir ar falansau gwaith. | I'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol ac ar wasanaethau cysylltiedig â gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **14,270** |

# Atodlen 5: Cysoni Adnoddau ag Arian Parod – 2020-21 (£000)

***Tabl 1: Cysoni Adnoddau ag arian parod ar gyfer 2020-21 a gynhwysir yng Nghynnig y Gyllideb Atodol Hydref 2020 (£000)***

| | **Gweinidogion Cymru** | **Comisiwn y Senedd** | **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus** | **Swyddfa Archwilio Cymru** |
|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad Adnoddau Net** | 20,800,519 | 59,075 | 5,085 | 7,998 |
| **Gofyniad Cyfalaf Net** | 1,769,722 | 500 | 25 | 230 |
| Addasiadau: | | | | |
| Taliadau cyfalaf | -405,517 | -2,250 | -60 | -280 |
| Amhariadau | -369,584 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau yn y darpariaethau | -64,202 | -1,600 | 0 | 0 |
| Elw/Colled wrth werthu asedau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn stociau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn dyledwyr/credydwyr | 542,000 | 350 | 0 | 500 |
| Defnyddio darpariaethau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 | 20 | 0 |
| **Gofyniad Arian Parod Net i ddod o Gronfa Gyfunol Cymru** | **22,272,938** | **56,075** | **5,070** | **8,448** |

***Tabl 2: Newidiadau i Gysoni Adnoddau ag arian parod a gynhwysir yng Nghynnig Atodol y Gyllideb hon (£000)***

| | **Gweinidogion Cymru** | **Comisiwn y Senedd** | **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus** | **Swyddfa Archwilio Cymru** |
|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad Adnoddau Net** | 2,494,108 | 1,050 | 160 | -5 |
| **Gofyniad Cyfalaf Net** | 624,399 | 0 | 0 | 0 |
| Addasiadau: | | | | |
| Taliadau cyfalaf | -180,057 | 0 | 0 | 0 |
| Amhariadau | -590,817 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau yn y darpariaethau | -124,291 | -400 | 0 | 0 |
| Elw/Colled wrth werthu asedau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn stociau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn dyledwyr/credydwyr | -542,000 | -650 | -160 | 0 |
| Defnyddio darpariaethau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 | -974 | 0 |
| **Gofyniad Arian Parod Net i ddod o Gronfa Gyfunol Cymru** | **1,681,342** | **0** | **-974** | **-5** |

***Tabl 3: Cysoni Adnoddau ag arian parod a gynhwysir yng Nghynnig Atodol y Gyllideb hon (£000)***

| | Gweinidogion Cymru | Comisiwn y Senedd | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus | Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad Adnoddau Net** | 23,294,627 | 60,125 | 5,245 | 7,993 |
| **Gofyniad Cyfalaf Net** | 2,394,121 | 500 | 25 | 230 |
| Addasiadau: | | | | |
| Taliadau cyfalaf | -585,574 | -2,250 | -60 | -280 |
| Amhariadau | -960,401 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau yn y darpariaethau | -188,493 | -2,000 | 0 | 0 |
| Elw/Colled wrth werthu asedau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn stociau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn dyledwyr/credydwyr | 0 | -300 | -160 | 500 |
| Defnyddio darpariaethau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 | -954 | 0 |
| **Gofyniad Arian Parod Net i ddod o Gronfa Gyfunol Cymru** | **23,954,280** | **56,075** | **4,096** | **8,443** |

**Nodiadau:**

1. Mae cynnwys a fformat y tabl hwn yn cydymffurfio ag Adran 125(1)(c) a 126(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (“y Ddeddf”). Mae’r Adran hon yn pennu bod yn rhaid, er mwyn awdurdodi’r cynnig, gael datganiad sy’n awdurdodi “the amount which may be paid out of the Welsh Consolidated Fund in the financial year to the relevant persons, or for use pursuant to a relevant enactment, for the purposes so specified”. Gwneir y taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru mewn arian parod, felly mae’r tabl hwn yn dangos y gofynion perthnasol o ran arian parod i gefnogi’r adnoddau y gofynnir amdanynt i gefnogi Atodlen 1 i 4, sy’n rhestru’r dibenion perthnasol y gellir defnyddio adnoddau ar eu cyfer.

2. Mae cynnwys a fformat y tabl hwn hefyd yn cydymffurfio â Rheol Sefydlog 20.28(v), sy’n pennu bod yn rhaid i gynnig y gyllideb gynnwys cysoniad o’r adnoddau sydd i’w hawdurdodi o dan Adran 125(1)(a) a (b) o’r Ddeddf â’r symiau sydd i’w hawdurdodi i’w talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan Adran 125(c) o’r Ddeddf.

## Atodlen 6: Cysoni adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y gyllideb â'r adnoddau a ddarperir gan y Trysorlys ar gyfer Bloc Cymru ar gyfer 2020-21

### *Tabl 1: Cysoni Adnoddau y Gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb Atodol Hydref 2020 â'r adnoddau a ddarperir gan y Trysorlys ar gyfer Cymru (£000)*

| | 2020-21 (£000) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **DEL Adnoddau** | **DEL Cyfalaf** | **AME Adnoddau** | **AME Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| *Adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb:* | | | | | |
| - Gweinidogion Cymru | 20,649,874 | 906,091 | 150,645 | 863,631 | 22,570,241 |
| - Comisiwn y Senedd | 57,475 | 500 | 1,600 | 0 | 59,575 |
| - Ombwdsmon | 5,085 | 25 | 0 | 0 | 5,110 |
| - Swyddfa Archwilio Cymru | 7,998 | 230 | 0 | 0 | 8,228 |
| **Cyfanswm yr adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol** | **20,720,432** | **906,846** | **152,245** | **863,631** | **22,643,154** |
| *Addasiadau:* | | | | | |
| (i) Defnydd adnoddau gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | 15,003 | 0 | 5,413 | 0 | 20,416 |
| (ii) Grantiau | -1,317,168 | 1,317,168 | 0 | 0 | 0 |
| (iii) Benthyca â chymorth | 0 | 88,800 | 0 | 0 | 88,800 |
| (iv) Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 3,238 | 0 | 804,000 | 0 | 807,238 |
| (v) Arall | 15,060 | 0 | 0 | 0 | 15,060 |
| **Cyfanswm Gwariant a Reolir – Gweinidogion Cymru a Chyrff a Noddir yn Uniongyrchol** | **19,436,565** | **2,312,814** | **961,658** | **863,631** | **23,574,668** |
| - Swyddfa Cymru | 5,200 | 30 | 0 | 0 | 5,230 |
| - Benthyca | 0 | -125,000 | 0 | 125,000 | 0 |
| - Trethi Datganoledig | -2,333,313 | 0 | 2,333,313 | 0 | 0 |
| - Cronfa wrth gefn heb ei chlustnodi | 1,057,541 | 249,905 | 0 | 0 | 1,307,446 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (Bloc)** | **18,165,993** | **2,437,749** | **3,294,971** | **988,631** | **24,887,344** |

***Tabl 2: Newidiadau i Gysoni Adnoddau y Gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb Atodol Hydref 2020 â'r adnoddau a ddarperir gan y Trysorlys ar gyfer Cymru (£000)***

| | 2020-21 (£000) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **DEL Adnoddau** | **DEL Cyfalaf** | **AME Adnoddau** | **AME Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| *Adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb:* | | | | | |
| - Gweinidogion Cymru | 2,302,551 | 590,286 | 191,557 | 34,113 | 3,118,507 |
| - Comisiwn y Senedd | 650 | 0 | 400 | 0 | 1,050 |
| - Ombwdsmon | -814 | 0 | 974 | 0 | 160 |
| - Swyddfa Archwilio Cymru | -5 | 0 | 0 | 0 | -5 |
| **Cyfanswm yr adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb Atodol** | **2,302,382** | **590,286** | **192,931** | **34,113** | **3,119,712** |
| *Addasiadau:* | | | | | |
| (i) Defnydd adnoddau gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | -4,288 | 0 | -5,413 | 0 | -9,701 |
| (ii) Grantiau | -246,671 | 246,671 | 0 | 0 | 0 |
| (iii) Benthyca â chymorth | -771 | 0 | 0 | 0 | -771 |
| (iv) Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 746 | 0 | -112,000 | 0 | -111,254 |
| (v) Arall | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm yr addasiadau yng Nghynnig y Gyllideb Atodol** | **2,051,398** | **836,957** | **75,518** | **34,113** | **2,997,986** |
| - Swyddfa Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| - Benthyca | 0 | 125,000 | 0 | -125,000 | 0 |
| - Trethi Datganoledig | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| - Cronfa wrth gefn heb ei chlustnodi | -712,610 | -248,411 | 0 | 0 | -961,995 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (Bloc)** | **1,338,788** | **713,546** | **75,518** | **-90,887** | **2,036,965** |

## *Tabl 3: Cysoni Adnoddau y Gofynnir amdanynt yn y Gyllideb Atodol hon*

| | **2020-21 (£000)** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **DEL Adnoddau** | **DEL Cyfalaf** | **AME Adnoddau** | **AME Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| *Adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb:* | | | | | |
| - Gweinidogion Cymru | 22,952,425 | 1,496,377 | 342,202 | 897,744 | 25,688,748 |
| - Comisiwn y Senedd | 58,125 | 500 | 2,000 | 0 | 60,625 |
| - Ombwdsmon | 4,271 | 25 | 974 | 0 | 5,270 |
| - Swyddfa Archwilio Cymru | 7,993 | 230 | 0 | 0 | 8,223 |
| **Cyfanswm yr adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb Atodol** | **23,022,814** | **1,497,132** | **345,176** | **897,744** | **25,762,866** |
| *Addasiadau:* | | | | | |
| (ii) Defnydd adnoddau gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | 10,715 | 0 | 0 | 0 | 10,715 |
| (iii) Grantiau | -1,563,839 | 1,563,839 | 0 | 0 | 0 |
| (iv) Benthyca â chymorth | -771 | 88,800 | 0 | 0 | 88,029 |
| (v) Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 3,984 | 0 | 692,000 | 0 | 695,984 |
| (vi) Arall | 15,060 | 0 | 0 | 0 | 15,060 |
| **Cyfanswm Gwariant a Reolir – Gweinidogion Cymru a Chyrff a Noddir yn Uniongyrchol** | **21,487,963** | **3,149,771** | **1,037,176** | **897,744** | **26,572,654** |
| - Swyddfa Cymru | 5,200 | 30 | 0 | 0 | 5,230 |
| - Benthyca | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| - Trethi Datganoledig | -2,333,313 | 0 | 2,333,313 | 0 | 0 |
| - Cronfa wrth gefn heb ei chlustnodi | 344,931 | 1,494 | 0 | 0 | 346,425 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (Bloc)** | **19,504,781** | **3,151,295** | **3,370,489** | **897,744** | **26,924,309** |

**Nodiadau:**

1. Mae cyfanswm gofyniad Llywodraeth Cymru am adnoddau yn gyfwerth â chyfanswm y dyraniadau a gynhwyswyd yn y Cwmpasau yn Atodlen 1.

2. Dywed Rheol Sefydlog 20.28(ii) y dylai cynnig y gyllideb flynyddol gynnwys yr adnoddau y mae'r Trysorlys yn cytuno arnynt ar gyfer cyllideb bloc Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymdrin â hi. Mae Atodlen 6 yn bodloni'r gofyniad hwn.

3. Dywed Rheol Sefydlog 20.28(iii) fod yn rhaid i gynnig y gyllideb flynyddol gynnwys cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd i gyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau sydd i'w hawdurdodi i'w defnyddio yng nghynnig y gyllideb. Mae Atodlen 6 yn bodloni'r gofyniad hwn.

4. Mae'r atodlenni uchod yn dangos amrywiadau a awdurdodwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol o dan Adran 126 o'r Ddeddf a Rheol Sefydlog 20.31.

5. Dyma'r taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru:

| **Eitem** | **2020-21 £000** |
|---|---|
| Taliadau i'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol – Llog [Nodyn] | 2,472 |
| Costau Etholiad | 765 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd | 266 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig yr Ombwdsmon | 213 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig yr Archwilydd Cyffredinol | 206 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru | 27 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig y Comisiynydd Safonau | 33 |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol y gellir eu hailddosbarthu | 692,000 |
| **Cyfanswm** | **695,984** |

Nodyn:

Amcangyfrifir bod £2,362,000 yn ychwanegol i'w godi'n uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru mewn perthynas â'r prif ad-daliad i'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol ar fenthyciad. Mae'r taliad hwn y tu allan i Gyfanswm y Gwariant a Reolir.

**Atodlen 7: Cysoni'r llif arian parod i Gronfa Gyfunol Cymru â'r arian parod y gofynnir amdano yng Nghynnig y Gyllideb (£000)**

| | Darpariaeth Flaenorol 2020-21 | Newidiadau | Darpariaeth Ddiwygiedig 2020-21 |
|---|---|---|---|
| **Amcangyfrif o'r symiau net i'w talu i Weinidogion Cymru:** | | | |
| Grant i'w dalu gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gronfa Gyfunol Cymru o dan Adran 118 (1) | 19,716,252 | 761,547 | 20,477,799 |
| Talu Cyfradd Treth Incwm Cymru i Gronfa Gyfunol Cymru | 2,169,668 | 0 | 2,169,668 |
| Arian wedi'i fenthyca o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol ac oddi wrth fanciau masnachol o dan Adran 121 | 125,000 | -125,000 | 0 |
| Taliadau gan Adrannau Llywodraeth eraill | 1,327,527 | -47,845 | 1,279,682 |
| Taliadau o ffynonellau eraill | 1,960,902 | -69,317 | 1,891,585 |
| Llai y symiau a awdurdodwyd i'w cadw gan Weinidogion Cymru a Chyrff a Gyllidir yn Uniongyrchol | -990,895 | -4,046 | -994,941 |
| **Amcangyfrif o'r symiau i'w talu i Weinidogion Cymru** | **24,308,454** | **515,339** | **24,823,793** |
| Dosbarthwyd fel a ganlyn: | | | |
| - Gweinidogion Cymru | 22,272,938 | 1,681,342 | 23,954,280 |
| - Comisiwn y Senedd | 56,075 | 0 | 56,075 |
| - Ombwdsmon | 5,070 | -974 | 4,096 |
| - Swyddfa Archwilio Cymru | 8,448 | -5 | 8,443 |
| **Arian a ryddheir o Gronfa Gyfunol Cymru yn y Cynnig** | **22,342,531** | **-1,680,363** | **24,022,894** |
| Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 809,600 | -111,254 | 698,346 |
| Cronfeydd heb eu clustnodi | 1,156,323 | -1,053,770 | 102,553 |
| **Amcangyfrif o Gyfanswm y Taliadau** | **24,308,454** | **515,339** | **24,823,793** |

**Nodiadau:**

1. Mae Adran 125(3) o'r Ddeddf yn datgan bod yn rhaid i gynnig y gyllideb flynyddol gael ei ategu gan ddatganiad ysgrifenedig gan y Gweinidogion, yn dangos:

   i. cyfanswm y taliadau y maent yn amcangyfrif a wneir ar gyfer y flwyddyn ariannol o dan Adran 118(1);

ii. cyfanswm y taliadau y maent yn amcangyfrif a wneir i Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu’r Cwnsler Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ariannol gan Weinidogion y Goron ac adrannau’r llywodraeth; a

iii. cyfanswm y taliadau y maent yn amcangyfrif a wneir i Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu’r Cwnsler Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ariannol heblaw gan Weinidogion y Goron neu adrannau’r llywodraeth.

2. Mae’r atodlen uchod yn dangos amrywiadau yn y symiau hyn fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 20.31

**Mawrth 2021**

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE-499-21

Llyr Gruffydd
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

2 Mawrth 2021

Annwyl Llyr,

Cytunais i roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor am y cyllid sydd wedi'i ddyrannu i gefnogi busnesau yn ystod y pandemig. Gweler yr atodiad amgaeedig sy'n nodi'r wybodaeth y gofynnir amdani.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Cymorth Busnes Covid-19 Llywodraeth Cymru

| Cyllid | Dyddiad Gweithredu | Cynnig |
|---|---|---|
| Cynllun Grant Ardrethi Annomestig Covid-19<br><br>Dros £770m wedi'i ddarparu | Ebrill 2020 – Mehefin 2020 | Roedd grant o £25,000 ar gael i **fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch** sy'n meddiannu eiddo â gwerth ardrethol o rhwng £12,001 a £51,000.<br><br>Roedd grant o £10,000 ar gael i bob busnes sy'n gymwys i gael rhyddhad ardrethi i fusnesau bach (SBRR) yng Nghymru sydd â gwerth ardrethol o £12,000 neu lai. |
| ERF Cam 1<br><br>£400m | Ebrill 2020 | Gallai microfusnesau, gan gynnwys busnesau newydd, fod wedi bod yn gymwys i gael hyd at £10k o gymorth.<br><br>Gallai busnesau bach a chanolig sydd â rhwng 10 a 249 o weithwyr fod wedi bod yn gymwys i gael grantiau o hyd at £100k.<br><br>Roedd cyllid ar gael i gefnogi busnesau mawr sydd â mwy na 249 o weithwyr. Ystyriwyd ceisiadau fesul achos er mwyn barnu lle y gellid defnyddio cyllid yn y ffordd fwyaf effeithiol i ategu ffynonellau cymorth eraill.<br><br>Dim ond ar gyfer busnesau a oedd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW neu wedi'u heithrio rhag TAW, â throsiant o fwy na £85k yr oedd Cam 1. |
| Cynllun Benthyciadau Busnes Covid-19 Cymru<br><br>£500m | Ebrill 2020 | Roedd Cynllun Benthyciadau Busnes Covid-19 Cymru gwerth £100m ar gael i gwmnïau sy'n profi problemau llif arian o ganlyniad i'r pandemig gan ddarparu benthyciadau o rhwng £5k a £250k ar gyfraddau llog ffafriol. Cyrhaeddwyd yr uchafswm ar gyfer ceisiadau i'r gronfa yn yr wythnos gyntaf. |
| Grantiau Cychwyn Busnes<br><br>£5m | Mehefin 2020 – Medi 2020 | Roedd Llywodraeth Cymru yn sylweddoli bod angen penodol i gefnog pobl sy'n hunangyflogedig ond sydd y tu allan i'r Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth (SEISS) a gyhoeddwyd yn y DU oherwydd mai dim ond yn ystod 2019 y dechreuon nhw fasnachu. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, lansiwyd Grant Cychwyn Busnes gwerth £5m i gefnogi hyd at 2,000 o busnesau newydd yng Nghymru gyda grant o £2,500 yr un. Daeth y cynllun i ben i geisiadau newydd am 5pm ddydd Gwener 4 Medi.<br><br>Roedd y Grant Cychwyn Busnes yn cynnig achubiaeth bosibl i'r rhai a sefydlodd eu busnes ar ôl 31 Mawrth 2019, gan eu helpu i barhau i fasnachu drwy'r pandemig Covid-19. |

# Cymorth Busnes Covid-19 Llywodraeth Cymru

| | | |
|---|---|---|
| | | Diben y grant oedd cefnogi busnesau sydd newydd eu creu gyda chymorth llif arian ar unwaith i'w helpu i oroesi canlyniadau economaidd y pandemig Covid-19. Nod y grant oedd ategu mesurau ymateb Covid-19 eraill i gefnogi busnesau, mentrau cymdeithasol a sefydliadau elusennol yng Nghymru. |
| ERF Cam 2<br><br>£300m | Mehefin 2020 – Gorffennaf 2020 | Rhyddhaodd ail gam ERF £200m ac yna £100m arall o gyllid i dargedu busnesau micro, busnesau bach a chanolig a busnesau mawr sydd o bwysigrwydd cymdeithasol neu economaidd hanfodol i Gymru.<br><br>Roedd microfusnesau yn gymwys i gael hyd at £10k o gymorth.<br><br>Roedd busnesau bach a chanolig yn gymwys i gael hyd at £100k o gymorth.<br><br>Roedd busnesau mawr yn gymwys i gael hyd at £690k yn unol â rheolau Cymorth Gwladwriaethol dros dro. |
| Y Gronfa Adferiad Diwylliannol<br><br>£63m | Medi 2020 – Hydref 2020 | Roedd grant nad yw'n ad-daladwy o hyd at £150,000 (hyd at 100% o'r costau cymwys) fesul sefydliad ar gael drwy ddau bwynt mynediad i'r cais:<br>- Dan £10,000: proses gyflym ar gyfer sefydliadau llai yn seiliedig ar gostau cymwys<br>- Rhwng £10,000 a £150,000: proses fanylach yn seiliedig ar gostau cymwys<br><br>Cyflwynwyd elfen ar wahân o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol, gwerth £27.5 miliwn, drwy Gyngor Celfyddydau Cymru i gefnogi theatrau ac orielau. Lansiwyd y gronfa hon ar 17 Awst ac mae bellach ar gau i geisiadau. Nid oedd ymgeiswyr yn gallu gwneud cais am gyllid Cyngor Celfyddydau Cymru a chyllid Llywodraeth Cymru. |
| Grant Darparwyr Gofal Plant<br><br>£4m | Awst 2020 – Hydref 2020 | Gallai darparwyr gofal plant gan gynnwys gwarchodwyr plant, meithrinfeydd, cylch meithrin, crèches a chlybiau y tu allan i oriau ysgol wneud cais am hyd at £5,000 i'w digolledu ar gyfer incwm a gollwyd rhwng 1 Ebrill 2020 a 30 Mehefin 2020. |
| Grant Llawrydd y Gronfa Adferiad Diwylliannol<br><br>£10.5m | Hydref 2020 | Roedd gweithwyr llawrydd sy'n gweithio yn y sectorau diwylliannol a chreadigol yng Nghymru yn gallu gwneud cais am eu cyfran o gronfa £ £7 miliwn – a dargedwyd yn benodol at y rhai yn y sector llawrydd a gafodd eu taro galetaf gan bandemig y coronafeirws.<br><br>Agorodd y gronfa ar 5 Hydref a bydd yn weithredol dros ddau gam. Gall unigolion wneud cais am grant o £2,500. Bydd y gronfa'n agored i weithwyr llawrydd yn is-sectorau'r celfyddydau, diwydiannau creadigol, |

| | | |
|---|---|---|
| | | digwyddiadau celfyddydol a threftadaeth, diwylliant a threftadaeth, y mae gan eu gwaith ganlyniadau creadigol/diwylliannol uniongyrchol. Mae Cam 2 y Gronfa Llawrydd wedi agor ar gyfer ceisiadau.<br><br>Roedd £3.5m arall ar gael drwy drydydd cam y Gronfa Adferiad Diwylliannol i gefnogi'r Gronfa Llawrydd. Agorodd ceisiadau ar gyfer cam 3 o ddydd Llun 23 Tachwedd i weithwyr llawrydd yn y sector creadigol. |
| ERF Cam 3 – Grantiau Datblygu Busnes<br><br>£100m | Hydref 2020 – Tachwedd 2020 | Roedd Cam 3 y Gronfa Cadernid Economaidd (ERF) ar gael bron i £300m i fusnesau i'w helpu i ddelio â heriau economaidd Covid-19 ac allanfa arfaethedig y DU o gyfnod pontio'r UE.<br><br>Roedd y Fframwaith yn agored i fusnesau o bob maint a phob sector ledled Cymru, gan gynnwys mentrau cymdeithasol ac elusennau, yn amodol ar fodloni meini prawf cymhwysedd, ac roedd yn cynnwys:<br><br>• <u>Grantiau Datblygu Busnes</u>: £100m i helpu busnesau i ddatblygu a sicrhau cyflogaeth eu gweithluoedd drwy grantiau datblygu busnes. Roedd gofyn i rai cwmnïau ymrwymo rhywfaint o'uu hadnoddau eu hunain yn gyfnewid am hynny.<br><br>• <u>Cymorth Twristiaeth a Lletygarwch</u>: Mae £20m o'r Grantiau Datblygu Busnes gwerth £100m wedi'i neilltuo i gefnogi busnesau twristiaeth a lletygarwch sy'n wynebu cyfyngiadau a heriau penodol ar ddechrau misoedd y gaeaf.<br><br>• <u>Cronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau</u>: £199.5m i gefnogi busnesau sy'n cael eu heffeithio gan gyfyngiadau cyfyngiadau symud, gan gynnwys elfen grant ar sail disgresiwn (manylion pellach isod)<br><br>Agorodd Grantiau Datblygu Busnes ERF ar gyfer ceisiadau ar 28 Hydref a daeth i ben ar 29 Hydref oherwydd y nifer fawr o geisiadau. Caeodd y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau ar gyfer cofrestriadau ar 20 Tachwedd. |
| ERF Cam 3 – Cronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau - NDR<br><br>£199.5m | Hydref 2020 – Tachwedd 2020 | Roedd trydydd cam ERF hefyd yn cynnwys Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau, sy'n werth £199.5m ac a weithredwyd gan yr awdurdodau lleol. Roedd y gronfa'n darparu'r cymorth canlynol i fusnesau cymwys:<br><br>• Roedd busnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch a orfodwyd i gau (fel y'u diffinnir gan <u>y rheoliadau</u>) yn ystod y cyfnod atal byr, sy'n meddiannu eiddo â gwerth ardrethol rhwng £12,001 a £51,000 yn gymwys i gael taliad o £5,000. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Roedd pob busnes a oedd yn gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach sy'n meddiannu eiddo â gwerth ardrethol o £12,000 neu lai yn gymwys i gael taliad o £1,000.<br><br>• Roedd grant disgresiynol pellach o £2,000 ar gael ar sail cais i'r busnesau hynny â gwerth ardrethol o £12,000 neu lai a orfodwyd i gau gan y cyfyngiadau atal byr (fel y'u diffinnir gan y rheoliadau).<br><br>• Roedd grant disgresiynol pellach o £1,000 ar gael i fusnesau ar yr un sail os oedd y cyfyngiadau symud lleol wedi effeithio'n sylweddol arnynt cyn dechrau'r cyfnod atal byr.<br><br>Caeodd y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau i gofrestriadau ar 20 Tachwedd. |
| Y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau - NDR<br><br>£160m | Rhagfyr 2020 - Mawrth 2021 | O dan y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau mae grantiau ar gael ar gyfer ardrethi annomestig (NDR) a grantiau yn ôl disgresiwn ar gyfer y sectorau manwerthu, lletygarwch, hamdden a thwristiaeth nad ydynt yn hanfodol (NERHLT) yn darparu taliadau ar gyfer y cyfnod rhwng mis Rhagfyr a diwedd mis Mawrth 2021 ar gyfer busnesau y mae cyfyngiadau cenedlaethol yn effeithio arnynt.<br><br>Bydd hyn yn rhoi isafswm grant cyfunol o £6k-£10k i fusnesau cyn ystyried cymorth drwy Gronfa Benodol Sector y Gronfa Cadernid Economaidd (ERF), y Cynllun Cymorth Swyddi a'r pecyn ehangach.<br><br>• Bydd busnesau NERHLT sy'n derbyn Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach (SBRR) ac sydd â gwerth ardrethol o £12,000 neu lai yn gymwys i gael **£6,000**. Bydd busnesau'r gadwyn gyflenwi sy'n gymwys i gael SBRR hefyd yn gymwys i gael y cymorth hwn os bydd eu trosiant yn gostwng mwy na 40% yn ystod cyfnod y cyfyngiadau.<br><br>• Bydd busnesau NERHLT sydd â gwerth ardrethol o rhwng £12,001 a £51,000 hefyd yn gymwys i gael **£10,000** os bydd y cyfyngiadau wedi effeithio arnynt. Bydd busnesau'r gadwyn gyflenwi yn yr un band gwerth ardrethol hefyd yn gymwys i gael y cymorth hwn os bydd eu trosiant yn gostwng mwy na 40% mewn trosiant yn ystod cyfnod y cyfyngiadau.<br><br>• Bydd busnesau NERHLT sydd â gwerth ardrethol o rhwng £51,001 a £500,000 hefyd yn gymwys i gael **£5,000** os bydd y cyfyngiadau'n effeithio arnynt. Bydd busnesau'r gadwyn gyflenwi yn yr un band gwerth ardrethol hefyd yn gymwys i gael y cymorth hwn os bydd eu trosiant yn gostwng mwy na 40% yn ystod cyfnod y cyfyngiadau. |

# Cymorth Busnes Covid-19 Llywodraeth Cymru

| | | |
|---|---|---|
| | | • Bydd busnesau NERHLT sydd â gwerth ardrethol hyd at £150k a gofrestrodd ac a dderbyniodd Grant Cronfa Gyfyngiadau ERF ym mis Rhagfyr/Ionawr drwy eu Hawdurdod Lleol yn dechrau derbyn taliadau i'w cyfrif banc yn ystod mis Chwefror. Ni fydd yn ofynnol i'r busnesau hyn ailgofrestru eu manylion.<br><br>Rhaid i fusnesau cymwys nad ydynt wedi derbyn y grant hyd yma gofrestru, a gallant hefyd gofrestru ar gyfer y cyfnod blaenorol ar yr un pryd.<br><br>Mae'r estyniad yn rhoi cymorth i eiddo busnes manwerthu, hamdden a thwristiaeth sydd â gwerthoedd sylweddol o rhwng £150k a £500k y flwyddyn. Bydd hyn yn galluogi darparu cymorth i garfan o gwmnïau canolig nad ydynt hyd yma wedi cael cymorth drwy gynlluniau grantiau'r Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau. Bydd yn ofynnol i'r busnesau hyn gofrestru eu manylion, yn ogystal â gwneud cais byr ar-lein i'w hawdurdod lleol perthnasol.<br><br>Gall busnesau gael mynediad i'r broses gofrestru a chymhwyso drwy wefannau Busnes Cymru ac awdurdodau lleol. https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/node/21<br><br>Er mwyn cefnogi busnesau nad ydynt wedi'u cofrestru ar gofrestr yr NDR ac sydd â throsiant o dan £50k, mae cyfnod pellach o £30m o'r Gronfa Cymorth Dewisol Lleol hefyd wedi'i gymeradwyo a bydd yn darparu grant o £2,000 drwy gais a thaliad ail rownd. Bydd angen i fusnesau gyflwyno cais i'r gronfa. |
| Grant Rhwystrau<br><br>£1.2m | Rhagfyr 2020 – Mawrth 2021 | Bydd ymgeiswyr yn gallu gwneud cais am hyd at £2,000 i gefnogi costau busnes hanfodol, yn seiliedig ar angen ac wedi'u hategu gan gynllun busnes.<br><br>Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd gofrestru gyda Busnes Cymru i dderbyn cymorth busnes gan un o'n darparwyr i'w helpu i ystyried hyfywedd eu syniad busnes a datblygu cynllun busnes. Mae cymorth hefyd ar gael gan Syniadau Mawr Cymru, ein Hybiau Menter neu Busnes Cymdeithasol Cymru.<br><br>Mae Cronfa Rhwystrau Busnes Cymru yn agored i geisiadau **tan 19 Mawrth 2021**, neu'n gynt os bydd yr arian wedi'i ddefnyddio cyn y dyddiad hwnnw. Ceir rhagor o fanylion am sut i wneud cais a chofrestru gyda Busnes Cymru ar wefan Busnes Cymru:<br>https://businesswales.gov.wales/cy/grant-rhwystrau-busnes-cymru |

| | | |
|---|---|---|
| Cymorth Penodol i Sectorau, y Gronfa Cadernid Economaidd (ERF)<br><br>£180m | Ionawr 2021 – Chwefror 2021 | Targedwyd pecyn Cymorth Penodol i Sectorau y Gronfa Cadernid Economaidd (costau gweithredu) gwerth £180m at fusnesau lletygarwch, twristiaeth a hamdden neu gwmnïau cadwyn gyflenwi sy'n cael eu heffeithio'n sylweddo, gydag effaith o fwy na <u>60%</u> ar eu trosiant o ganlyniad i'r cyfyngiadau.  Roedd yn rhaid i fusnesau cymwys fod yn cyflogi staff trwy PAYE, a naill ai wedi cofrestru ar gyfer TAW neu (wedi'u heithrio rhag TAW) gyda throsiant dros £85,000, neu'n gwmnïau cyfyngedig â throsiant dros £50,000.<br><br>Gallai busnesau sydd wedi defnyddio Cronfa Fusnes Cyfyngiadau ERF wneud cais am y gronfa hon hefyd. Ar gyfer busnesau cymwys, roedd y pecyn cymorth yn darparu'r dyfarniadau grant canlynol:<br><br>• Ar gyfer busnes un gweithiwr, isafswm grant o £2,500<br><br>• BBaChau (hyd at 249 o weithwyr) - £1,500 fesul cyflogai hyd at uchafswm o 10 cyflogai, sy'n cynrychioli £15,000 neu ar gyfer y rhai sy'n cyflogi mwy na 10, £1,500 fesul cyflogai neu gostau gweithredu hunanddatganedig am y cyfnod cyfyngedig (pa un bynnag yw'r swm is).<br><br>Byddai terfyn uchaf o £100,000 ar gyfer busnesau BBaChau gyda chais sy'n seiliedig ar system ddigidol.<br><br>• Busnesau mawr (250+ o weithwyr) - £500 y cyflogai ar gyfer ymgeiswyr busnes mawr sydd â'u pencadlys yng Nghymru hyd at uchafswm o £150,000, gan gyflwyno cais ar sail achos unigol drwy dîm y sector.<br><br>Roedd gwiriwr cymhwysedd ac offeryn cyfrifo ar gael ar wefan Busnes Cymru. Agorodd Cronfa Benodol Sector ERF i geisiadau ar 13 Ionawr 2021 a daeth i ben ar 29 Ionawr 2021. |

The Scottish Parliament
Pàrlamaid na h-Alba

**Finance and Constitution Committee**

Rt Hon Chief Secretary to the Treasury, Stephen Barclay MP (by e-mail)

The Scottish Parliament
EDINBURGH
EH99 1SP

finance.constitution@parliament.scot

4 March 2021

Dear Chief Secretary,

Thank you for your letter dated 12 February in response to recommendations in our pre-budget report.

The Committee has now published our report on the Scottish Government's Budget 2021-22.[1]

The Committee noted that this is the second consecutive year in which the Scottish Budget has been published prior to the UK Budget. The Committee recognises that this was due to the UK General Election in December 2019 and then the exceptional circumstances arising from COVID-19. In both cases this has resulted in a truncated period for parliamentary scrutiny which makes detailed consideration of the Budget very challenging. The interconnectedness of the UK Budget and the Scottish Budget exacerbates this challenge.

The Committee has therefore recommended that our successor should work with its counterpart committees in Wales, Northern Ireland and the House of Commons with a view to impressing on HM Treasury the benefits of better alignment between the devolved budget processes and UK fiscal events. The forthcoming review of the Fiscal Framework also provides an opportunity to address this issue.

The Committee reiterates our recommendation in our pre-budget report that HM Treasury gives a commitment that if the fiscal position continues to rapidly evolve in 2021-22 that the funding guarantee for COVID-19 related Barnett consequentials should continue in the next financial year.

---

[1] https://sp-bpr-en-prod-cdnep.azureedge.net/published/FCC/2021/2/23/c04d100c-3d3d-4af6-bf53-bd49031b49d6/FCC052021R2.pdf

The Committee also recommends that the spill over provision arising from the impact of Personal Allowance increases on the Scottish Budget should be agreed between HM Treasury and the Scottish Government as soon as practical.

Finally, the Committee recommends that given borrowing costs are extraordinarily low, HM Treasury considers increasing the Scottish Government's capital borrowing powers as a value for money means of supporting economic recovery.

Given that the Parliament will be in a pre-election recess from 26 March it would be helpful to have a response by 19 March.

I am copying this letter to the Chairs of our counterpart committees in the House of Commons, the Senedd and the Northern Ireland Assembly.

Yours sincerely,



**Bruce Crawford MSP**
**Convener**

**Ken Skates AS/MS**
**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Minister for Economy, Transport and North Wales**

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf / Our ref: KS/474/21

Rt Hon Steve Barclay MP
Chief Secretary to the Treasury
Action.CST@hmtreasury.gov.uk

4 February 2021

Dear Steve,

Further to our discussion on the 28th January, we are writing to confirm the Welsh Government's position on the UK Government's proposal for Freeports in Wales.

We remain open to the prospect of having Freeports within Wales. We recognise the attractiveness of the proposals to ports and businesses, and the substantial priority that the UK Government has placed on the Freeports policy. We are therefore willing to work with you to explore the introduction of Freeports into Wales, but we need confidence that they are consistent with our own values and priorities, treated with equal significance by the UK Government, and not left at a disadvantage.

Freeports in Wales should be given the same opportunities as those in England, including a commitment from the UK Government to match the offer in England by providing £25 million in seed capital funding. We have previously made clear our position that, as the overall Freeports policy is a place-based intervention, population-based funding formulas would not be appropriate and we could not accept an outcome which would make Wales worse off as a result of the UK Government's Freeports policy.

Additionally, an open-ended commitment by the Welsh Government to match the UK Government's offer on Non Domestic Rates and Stamp Duty (Land Transaction Tax in Wales) would present a significant risk to Welsh tax revenues. We are prepared to cover devolved tax costs up to an agreed threshold, but would seek with UK Government covering costs above that.

The Welsh Government's assessment of this policy is based on the risks and

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

opportunities associated with the creation of Freeports as they apply to the Welsh economy. These factors are based on the interests of, and outcomes for, the people of Wales and are of course distinct from considerations concerning other devolved administrations. As discussed at our meeting, the urban and industrial centres situated close to our porous border are more likely to be impacted by potential displacement.

We expect any Freeports in Wales to be consistent with the values and priorities of the democratically elected government of Wales, including our commitments to Fair Work and protecting the environment. Your stated position during our discussion was that the Chancellor would ultimately decide on Freeports. Whilst our preference would be for decision making to lie with Welsh Ministers, as we are best placed to make decisions in the interest of the people of Wales, we would be willing to accept joint-arrangements on criteria, decision making and allocation. We could not accept a proposal that would treat the Welsh Government as an unequal partner and we do not believe this would be in the interests of successful delivery.

Furthermore, as we approach the end of the Senedd parliamentary term, the UK Government's proposal would require a significant commitment of the Welsh Government's resources at a time when important priorities have had to be re-profiled due to the pandemic. It is important to note the additional pressure this proposal adds to that process in this extraordinary period.

However, despite these challenges we recognise that this is a significant priority for the UK Government and, with the right deal, we would seek to advance this priority with you with positivity. The Welsh Government is uniquely placed to bring together the partners and stakeholders who will be integral to delivering a successful intervention but we cannot accept a situation where Wales is left disadvantaged by entering into the arrangements you have proposed.

Ultimately the UK Government must demonstrate the same level of commitment to Freeports in both Wales and England, and we need to ensure we have the right arrangements to work positively together effectively. Without this agreement, Wales faces being left with either a weaker Freeport offer which is lacking devolved levers, less funding support, or no Freeport at all. We further note that it remains unclear whether a unilaterally imposed Freeport in Wales would draw investment of £25m seed capital from the UK Treasury or whether such a Freeport would secure less UK investment because it is located in Wales.

We are copying this letter to the Secretary of State for Wales and the Chancellor of the Exchequer.

Yours sincerely,

**Ken Skates AS/MS**
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-RE-0709-20

Llŷr Gruffydd, AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

05 Mawrth 2021

Annwyl Llyr,

Mae'n bleser gennyf amgáu yn Atodiad A ymateb y Llywodraeth i'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei waith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2021-22 (Chwefror 2021).

Ac ystyried yr amgylchiadau nas gwelwyd mo'u tebyg o'r blaen, hoffwn gofnodi fy niolch i'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgorau eraill am eu cydweithrediad wrth graffu mewn cyfnod byr.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Ymateb i Argymhellion y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft 2021-22

**Argymhelliad 1 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu goblygiadau Cyllideb y Deyrnas Unedig, a'i hymateb iddi, cyn gynted â phosibl, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i fyfyrio ar newidiadau posibl i Gyllideb Llywodraeth Cymru 2021-22.**

**Ymateb: Derbyn**

Yn unol â'r drefn sydd wedi hen ennill ei phlwyf, bydd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn darparu Datganiad Ysgrifenedig ar ddiwrnod Cyllideb y DU yn nodi goblygiadau uniongyrchol Cyllideb y DU i Gymru, gan gynnwys unrhyw newid yn y cyllid sydd ar gael i Gymru ac unrhyw fesurau treth a fydd â goblygiadau i Gymru. Byddwn yn ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid gyda manylion llawn y symiau canlyniadol sy'n codi o ganlyniad i Gyllideb y DU. Bydd y ddadl ar y Gyllideb derfynol ar 9 Mawrth yn gyfle cynnar i'r Senedd fyfyrio ar newidiadau i setliad cyffredinol Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 2 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio ymrwymiadau gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig y bydd digwyddiadau cyllidol y Deyrnas Unedig fel arfer yn cael eu cynnal erbyn dyddiad penodol i sicrhau bod gan weinyddiaethau datganoledig ddigon o amser i bennu cyllideb a gwneud gwaith craffu ystyrlon.**

**Ymateb: Derbyn**

Fel roeddem yn ei gydnabod wrth ymateb i'r gwaith craffu ar ein cynlluniau cyllideb ar gyfer 2020-21; er bod amseru digwyddiadau ariannol y DU yn fater i Lywodraeth y DU, byddwn yn parhau i dynnu sylw Llywodraeth y DU at bwysigrwydd rhoi mwy o sicrwydd ac eglurder i'r Gweinyddiaethau Datganoledig ynghylch amseriad digwyddiadau ariannol y DU, gan fod hyn yn effeithio ar ein gweithdrefnau cyllidebol ni.

Rydym hefyd wedi croesawu cefnogaeth Pwyllgorau Cyllid y Gweinyddiaethau Datganoledig ar y mater hwn. Yn eich llythyr ar y cyd at y Prif Ysgrifennydd roeddech wedi atgyfnerthu'r ddibyniaeth ar amseriad Cyllideb y DU a'r effaith ar y lefel briodol o graffu seneddol.

**Argymhelliad 3 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio ymrwymiadau gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i setliadau cyllido amlflwyddyn mewn pryd ar gyfer proses gyllideb y flwyddyn nesaf.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn falch bod y Pwyllgor yn cydnabod bod diffyg ffigurau cyllido i'r dyfodol gan Lywodraeth y DU wedi golygu na fu modd i Lywodraeth Cymru roi setliadau cyllido dros nifer o flynyddoedd.

Yn hyn o beth, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cynlluniau adnoddau a chyfalaf tymor hirach ar gyfer rhai rhaglenni, gan gynnwys ar gyfer y GIG ac addysg. Fodd bynnag, dim ond ar gyfer Lloegr mae'r rhain ac nid ydynt yn rhoi canllaw dibynadwy ar gyfer cyllid yng Nghymru yn y dyfodol. Nid yw'r cynlluniau hyn yn rhoi sylw i symudiadau mewn rhaglenni eraill a gallai hynny gael effaith fawr ar ein terfynau gwariant cyffredinol. Mae hyn yn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i ddarparu sicrwydd tymor hirach ar gyfer y llu o wasanaethau a sefydliadau rydym yn eu hariannu, yn enwedig o ystyried y cyd-destun ariannol rydym yn ei wynebu.

Mae Llywodraeth Cymru yn dal eisiau gallu darparu cyllidebau tymor hirach i'n partneriaid ac i'n rhanddeiliaid. Bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i gyhoeddi setliadau ar gyfer nifer o flynyddoedd er mwyn rhoi'r un sicrwydd i'r Gweinyddiaethau Datganoledig ag a roddir i Adrannau'r DU.

**Argymhelliad 4 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut gall ddarparu gwybodaeth gyfredol am ei hymrwymiadau gwariant mewn perthynas â'r pandemig, yn ogystal â darparu tryloywder ynghylch y cyllid sydd ar gael iddi a'r cyllid canlyniadol mae'n ei dderbyn, er mwyn llywio'r gwaith craffu yn y flwyddyn ariannol a ddaw**

**Ymateb: Derbyn**

Fel roedd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi'i amlinellu yn ystod y broses graffu; er gwaethaf yr amgylchiadau eithriadol yn ystod y flwyddyn ariannol hon oherwydd y pandemig, rydym wedi ceisio darparu gwybodaeth ddiweddar a deunyddiau atodol yn unol â'n hymrwymiad i fod yn dryloyw. Mae hyn wedi golygu bod modd craffu ar oblygiadau ariannol y pandemig mewn ffordd ystyrlon. I gydnabod y sefyllfa a oedd yn symud yn gyflym ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, roeddem wedi cyhoeddi Cyllideb Atodol gynnar, ac yna un arall ym mis Hydref ac ym mis Chwefror.

Ni yw'r unig lywodraeth yn y DU sydd wedi cyhoeddi tri diweddariad i'n cyllideb yn ystod y flwyddyn ac sydd wedi bod yn dryloyw o ran ein penderfyniadau cyllido yn y ffordd hon. Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd hefyd wedi dweud y dylai gweinyddiaethau'r dyfodol ystyried adeiladu ar y lefel hon o dryloywder a'r camau ychwanegol a roddwyd ar waith eleni.

**Argymhelliad 5 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn llunio cynllun ar fyrder ar gyfer cyflymu cyllid, os na fydd cytundeb ar gynyddu cyfyngiadau ar ddwyn cyllid ymlaen yng nghronfa wrth gefn Cymru, er mwyn atal colli unrhyw arian i Gymru.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae manylion llawn cynlluniau gwariant terfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 wedi'u nodi yn y drydedd gyllideb atodol a gyhoeddwyd ar 16 Chwefror. Mae'n ffurfioli dros £1.1bn o benderfyniadau gwario sy'n ymwneud â COVID-19 a wnaed ers cyhoeddi'r ail gyllideb atodol ym mis Hydref 2020.

Fel rhan o Amcangyfrifon Atodol Llywodraeth y DU ar gyfer 2020-21, mae Cymru wedi cael £660m yn ychwanegol at y warant cyllid £5.2bn, sy'n adlewyrchu ei chyfran o gyllid Barnett a gyhoeddwyd yn Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru yn cario'r cyllid hwn ymlaen yn 2021-22, ar ben Cronfa Wrth Gefn Cymru. Mae'r cyllid ychwanegol hwn wedi cael ei gynnwys yng Nghyllideb derfynol 2021-22.

**Argymhelliad 6 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig am gyllid teg mewn perthynas â phenderfyniadau diweddar sy'n achosi ansicrwydd neu'n effeithio ar gyllid sydd ar gael i Gymru, fel HS2, y gronfa ffyniant gyffredin, cyllid o golofn i golofn, tomennydd glo etifeddol, difrod llifogydd a bod Gweinidog Cyllid y presennol a'r dyfodol yn diweddaru'r Pwyllgor ar y cynnydd.**

**Ymateb: Derbyn**

Fel rhan o waith craffu'r Pwyllgor ar Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU, roeddem yn croesawu bod y Pwyllgor wedi ysgrifennu at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ym mis Ionawr yn pwyso am gyllid teg, gan gynnwys y diffyg yn y sector amaethyddol, y Gronfa Ffyniant Gyffredin a chyllid HS2. Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor ar 20 Ionawr, nododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd fod y Trysorlys wedi awgrymu nad oedd y Prif Ysgrifennydd yn bwriadu cytuno ar y cais i ailbroffilio trosglwyddo £42m o golofn i golofn ar gyfer Datblygu Gwledig. Roedd y broses amcangyfrifon atodol yn cadarnhau bod y cais hwn wedi cael ei wrthod ar y sail bod y penderfyniad i drosglwyddo o golofn i golofn yn ymwneud â phroses yr UE a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2019. Byddwn yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU ynghylch y penderfyniad hwn, gan bwysleisio effaith anghymesur hyn ar Gymru.

Rydym hefyd wedi gweld Llywodraeth y DU yn torri'r addewid a wnaeth yn yr Adolygiad o Wariant, sef y byddai'r gwledydd datganoledig yn cael symiau canlyniadol Barnett o'r gronfa Codi'r Gwastad. Yn lle hynny, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd yn defnyddio ei phwerau o dan Ddeddf y Farchnad Fewnol i wario mewn meysydd datganoledig sydd, yn ein barn ni, yn tanseilio datganoli mewn modd ymosodol ac anghyfansoddiadol. Byddwn yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod Cymru'n cael ei chyfran deg o gyllid a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid am y cynnydd yn rheolaidd. Byddem yn croesawu cefnogaeth barhaus y pwyllgor i bwyso ar Lywodraeth y DU ar y materion pwysig hyn.

**Argymhelliad 7 - Mae'r Pwyllgor yn argymell, lle mae materion parhaus yn ymwneud â chyllid gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, bod angen i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu ei chyllid i sicrhau nad oes unrhyw oedi cyn i gyllid gyrraedd lle mae ei angen ar frys.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd ein dull o ddyrannu cyllid yn parhau i fod yn seiliedig ar ddarparu cymorth ariannol cyflym mewn proses gyfrifol sy'n targedu adnoddau ar yr adeg iawn ar sail datblygiad y pandemig. Yn unol â rheoli cyllidebau'n ddarbodus ac yn gyfrifol, bydd angen cydbwyso hyn yn erbyn y sicrwydd ynghylch rhagor o gyllid gan Lywodraeth y

DU a'r angen i gadw hyblygrwydd i ymateb i faterion sy'n codi yn y flwyddyn ariannol nesaf.

**Argymhelliad 8 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth bellach am y mesurau sydd ar waith i sicrhau bod unrhyw gyllid iechyd ychwanegol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn cael ei ddyrannu'n effeithlon, gan wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r GIG wedi cynnal prosesau llywodraethu cadarn yn ystod y pandemig i sicrhau bod dyraniadau'n cael eu gwario'n briodol a sicrhau gwerth am arian. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal proses fonitro ariannol fisol gadarn i reoli gofynion cyllido ac i nodi meysydd sy'n amrywio o ran defnyddio adnoddau.

Mae Archwilio Cymru wedi adolygu trefniadau llywodraethu'r GIG yn ystod y pandemig (Gwneud Pethau'n Wahanol, Gwneud Pethau'n Iawn), ac wedi canfod bod holl gyrff y GIG wedi gweithredu'n effeithiol gyda synnwyr o frys a phwrpas cyffredin i fabwysiadu ffyrdd hyblyg a darbodus o weithio a chyflawni trawsnewid cyflym, gan hefyd gadw ffocws clir ar feysydd busnes a llywodraethu craidd.

**Argymhelliad 9 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am sut bydd y cyllid ychwanegol o £385 miliwn ar gyfer gwasanaethau craidd y GIG yn cael ei ddefnyddio. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad i ddangos faint sydd wedi ei neilltuo ar gyfer y dyfarniad cyflog i staff a gwasanaethau eraill, fel yr arian a fwriadwyd i ategu'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau presennol - er enghraifft, i fynd i'r afael â chynnydd mewn amseroedd aros oherwydd y pandemig.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae ein cynlluniau gwario craidd ar gyfer y GIG yn dal yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd yn adroddiadau Ymddiriedolaeth Nuffield yn 2014 a'r Sefydliad Iechyd yn 2016 ynghylch lefelau'r buddsoddiad sydd eu hangen i gynnal gwasanaethau diogel craidd.

Yn ein blaenoriaethau ar gyfer ariannu gwasanaethau craidd y GIG yn 2021-22, bydd y £385 miliwn o gyllid yn cael ei ddefnyddio i dalu am ddyfarniadau cyflog i staff y GIG yn ogystal â sicrhau bod gwasanaethau hanfodol nad ydynt yn gysylltiedig â Covid yn cael eu cynnal. Rydym wedi gofyn i'r cyrff adolygu cyflogau roi cyngor ynghylch lefel briodol y dyfarniad, a byddwn yn ystyried eu hargymhellion ar ôl iddynt gael eu cyflwyno ddechrau'r haf. Bydd cyllid yn cael ei ddyrannu i sefydliadau'r GIG i dalu costau'r dyfarniad cyflog. Rydym eisoes wedi cadarnhau gwerth £120 miliwn o gyllid i fyrddau iechyd lleol i dalu am y costau uwch.

Byddwn hefyd yn buddsoddi i drawsnewid sut caiff gwasanaethau iechyd eu darparu ac mewn technolegau newydd. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiadau newydd mewn meddygaeth fanwl, gan gynnwys mewn Cynnyrch Meddyginiaethol Therapiwtig Uwch a genomeg, a pharhau i fuddsoddi mewn addysg a hyfforddiant i weithlu'r GIG yn y dyfodol.

Mae profiad pandemig COVID wedi dangos bod angen buddsoddi rhagor mewn diogelu iechyd. Byddwn yn darparu £10m ychwanegol i Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi'r gwaith o drawsnewid Gwasanaethau Diogelu Iechyd yng Nghymru.

Byddwn hefyd yn buddsoddi £25m arall i fwrw ymlaen â'r weledigaeth a nodir yn *Cymru Iachach*. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni ataliol ac yn blaenoriaethu rhaglenni digidol. Bydd y rhain yn cynnwys data cenedlaethol, wardiau digidol, rhagnodi a gofal llygaid a byddwn yn parhau i edrych ar ragor o drawsnewid digidol a chymorth wedi'i dargedu i gynnal gwasanaethau hanfodol.

O ran amseroedd aros, rydym yn gweithio gyda'r GIG i ddatblygu cynllun adfer i ailgyflwyno rhagor o wasanaethau pan fydd hi'n ddiogel gwneud hynny, ond mae hi'n annhebygol y byddwn yn gweld gwasanaethau'n dychwelyd i gapasiti'r GIG cyn Covid am gyfnod gan ein bod yn disgwyl y bydd y gofynion cadw pellter cymdeithasol yn parhau ar waith ar ryw ffurf tra bydd Covid yn dal yn ein cymunedau a'n hysbytai.

**Argymhelliad 10 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro sut mae'r dyraniadau cyllideb drafft yn mynd i'r afael â'r materion cyfredol mae'r GIG yn eu hwynebu o ran nifer a gallu staff, yn ogystal â'r rhai mae'n debygol o'u profi o ystyried effaith barhaus y pandemig ar ei weithlu.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r pandemig wedi atgyfnerthu pwysigrwydd y gweithlu gofal iechyd ac yn y gyllideb ddrafft gwnaethom fuddsoddi £385m ychwanegol yng ngwasanaethau craidd y GIG, gan ddod â chyfanswm cyllid y GIG yn 2021-22 i dros £8.4bn. Er mwyn sicrhau bod gan sefydliadau GIG Cymru yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i ymateb i heriau'r pandemig, rydym wedi gwneud dyraniad ychwanegol o **£380m** yn y Gyllideb derfynol ar gyfer 6 mis cyntaf 2021-22 - mae mesurau penodol a ariennir yn cynnwys brechu rhag COVID-19, cyfarpar diogelu personol, glanhau i reoli heintiau, cynlluniau ymateb Lleol GIG Cymru.

**Argymhelliad 11 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer mwy o fuddsoddi mewn staff a hyfforddiant i gynorthwyo gweithwyr y GIG.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor yn cydnabod y mater pwysig hwn. Ar 7 Rhagfyr 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad ysgrifenedig yn cadarnhau y bydd rhagor o leoedd hyfforddi ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol. Bydd £227.9m yn cael ei fuddsoddi mewn addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes iechyd yn 2021-22, sydd 8.3% yn uwch na 2020-21 a bydd yn darparu'r nifer uchaf erioed o gyfleoedd hyfforddi yng Nghymru. Bydd rhagor o fuddsoddi mewn cynlluniau addysg a hyfforddiant yn parhau i fod yn seiliedig ar angen y gweithlu.

**Argymhelliad 12 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth bellach am y rhaglen frechu, gan wahaniaethu rhwng y costau mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gyfrifol amdanynt a'r rhai y darperir ar eu cyfer yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru.**

**Ymateb: Derbyn**

Fel yr amlinellwyd yn ystod y broses graffu, mae gwahaniaeth clir rhwng costau'r rhaglen frechu sy'n cael eu talu gan Lywodraeth y DU a'r rhai sy'n cael eu talu gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth y DU yn caffael cyflenwad brechlyn ar ran 4 gwlad y DU.

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am yr holl gostau eraill sy'n ymwneud â rhoi'r rhaglen frechu ar waith.  Y rhaglen frechu yw prif flaenoriaeth Llywodraeth Cymru a GIG Cymru.  Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda byrddau iechyd i lunio rhagolygon cadarn ar gyfer y misoedd nesaf.  Mae rhai elfennau ansicr yn parhau o ran gweithredu'r rhaglen, yn rhannol am fod y cyflenwad brechlyn yn dal i ddatblygu ond mae rhywfaint o ansicrwydd yn parhau, sy'n golygu bod angen i seilwaith y GIG addasu yn unol â hynny.

**Argymhelliad 13 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro sut bydd y dyraniadau ar gyfer iechyd meddwl yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag argaeledd cymorth.**

**Ymateb: Derbyn:**

Yn ein cyllideb ddrafft, gwnaethom ddyrannu  £42m o gyllid ychwanegol sylweddol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl.  Mae hyn yn golygu bod cyfanswm y gwariant ar iechyd meddwl yn £783m yn 2021-22. Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys £726 miliwn a fydd yn cael ei ddarparu i Fyrddau Iechyd Lleol yn 2021-22 fel rhan o'r dyraniad iechyd meddwl sydd wedi'i neilltuo i gefnogi'r cymorth a'r gwasanaethau iechyd meddwl presennol.

Mae angen ystyried y cyllid hwn hefyd yng nghyd-destun y dull gweithredu trawslywodraethol ac amlasiantaethol sydd ei angen i atal y cynnydd disgwyliedig mewn anghenion iechyd meddwl. Gan adeiladu ar y camau gweithredu sydd eisoes wedi'u cynnwys yn ein Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, rydym hefyd yn gweithio ar draws y llywodraeth i gryfhau rhagor ar ein hymateb i effaith economaidd-gymdeithasol y pandemig ar iechyd meddwl, gan ein bod yn cydnabod bod angen gweithredu ar draws y Llywodraeth i gefnogi ac i ddiogelu iechyd meddwl, gan gynnwys mewn cyflogaeth, cymorth gyda dyledion, tai ac addysg.

Rydym hefyd wedi sefydlu Bwrdd Cyflawni a Goruchwylio newydd a gyfarfu am y tro cyntaf ar 24 Chwefror 2021 i ategu'r trefniadau partneriaeth presennol a chryfhau'r gwaith o reoli rhaglenni ar draws y Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn ei chyfanrwydd.

Rydym wedi sicrhau bod elfen o hyblygrwydd yn y cyllid hwn i'n galluogi i ymateb i effaith y pandemig wrth i hynny ddod yn gliriach yn ystod 2021.

**Argymhelliad 14 - Mae'r Pwyllgor yn argymell, wrth fynd i'r afael â'r lefelau uwch o afiechyd meddwl sy'n gysylltiedig â'r pandemig, bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod buddsoddi'n digwydd mewn mesurau ataliol sy'n ystyried penderfynyddion ehangach iechyd meddwl, fel sgiliau a chyflogadwyedd, addysg, tai, mynediad at fannau gwyrdd a gweithgarwch corfforol.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn gweithio ar draws y llywodraeth i gryfhau rhagor ar ein hymateb i effaith economaidd-gymdeithasol y pandemig ar iechyd meddwl. Un o'n prif feysydd blaenoriaeth eleni, er enghraifft, yw cefnogi gwasanaethau argyfwng ymhellach, ac mae hyd at £6m ar gael ar gyfer hynny.

Y bobl fwyaf difreintiedig yng Nghymru fydd yn wynebu'r effeithiau ariannol mwyaf difrifol a achosir gan yr argyfwng. Rydym yn disgwyl i'r galw cynyddol am wasanaethau cynghori barhau ac felly rydym yn darparu cynnydd o £1.1m mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau cynghori er mwyn i bobl allu cael gafael ar gyngor diduedd am ddim ar ddyledion, cyflogaeth, cynyddu incwm a materion budd-daliadau lles.

Mae buddsoddi mewn tai cymdeithasol yn gallu chwarae rhan allweddol i gefnogi adferiad gwyrdd ochr yn ochr â sicrhau effaith economaidd a chymdeithasol ehangach. Rydym yn buddsoddi £100m ychwanegol yn ein rhaglenni Tai Cymdeithasol yn y Gyllideb derfynol, gan fynd â chyfanswm ein buddsoddiad yn y Grant Tai Cymdeithasol i bron i £250m yn 2021-22, gan gefnogi swyddi a chyfleoedd hyfforddi ar gyfer busnesau adeiladu bach a chanolig yng Nghymru a chadwyni cyflenwi lleol. Mae'r buddsoddiad hwnnw o £100m wedi golygu ein bod wedi gallu ymestyn ac uwchraddio'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, gan ddod â'n buddsoddiad yn y rhaglen hon i £50m yn 2021-22. Bydd hyn yn parhau i ddatblygu sgiliau newydd, offer asesu, cadwyni cyflenwi, a fframweithiau caffael sy'n hybu datblygiad busnesau bach a chanolig ac yn creu swyddi.

**Argymhelliad 15 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro sut mae'r cyllid ar gyfer llywodraeth leol ac addysg yn cynorthwyo'r ffyrdd presennol o ddysgu ac yn darparu digon o adnoddau i fynd i'r afael ag effaith negyddol y pandemig ar addysg, gan sicrhau nad yw pobl ifanc ar ei hôl hi.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae rhoi'r setliad gorau posibl i lywodraeth leol wedi bod yn ganolog i'n gwaith yn paratoi'r gyllideb eto eleni. Yn 2021-22 bydd awdurdodau lleol yn cael £4.65 biliwn mewn cyllid refeniw craidd ac ardrethi annomestig, cynnydd o £172 miliwn. Er ein bod yn cydnabod y pwysau sy'n wynebu llywodraeth leol, gobeithio bydd y cynnydd hwn yn golygu bod awdurdodau yn gallu parhau i gefnogi a darparu gwasanaethau rheng flaen sy'n hanfodol ac yn cael eu gwerthfawrogi, gan gynnwys ysgolion.

Rydym wedi darparu £206.6m ychwanegol ar gyfer y Gronfa Galedi Llywodraeth Leol ar gyfer y chwe mis cyntaf yn y Gyllideb derfynol, sy'n cynnwys rhagor o gymorth i ysgolion.

Rydym hefyd yn parhau i ddarparu cyllid grant ychwanegol sylweddol sydd ar ben y cyllid craidd i ysgolion drwy awdurdodau lleol. Mae ein buddsoddiad cyffredinol mewn grantiau refeniw penodol i awdurdodau lleol ar draws ein cyllideb Addysg dros £400m ar gyfer 2021-22.

Rydym hefyd wedi darparu £23.3m ychwanegol a gyhoeddwyd yn y gyllideb ddrafft i ymestyn prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau ysgol ar gyfer 2021-22 i gyd.

Rydym yn darparu £12m ychwanegol yn 2021-22 i recriwtio staff ysgolion i helpu, i hyfforddi ac i fentora dysgwyr difreintiedig ac agored i niwed o bob oed a sicrhau eu bod yn cael y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i ddal i fyny a lliniaru effaith pandemig COVID-19.

Byddwn hefyd yn buddsoddi £15m arall yn rhaglen trawsnewid digidol Hwb EdTech yn 2021-22 i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r Cwricwlwm i Gymru a darparu dysgu o bell.

**Argymhelliad 16 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro a fwriadwyd i'r cyllid ychwanegol yn y setliad llywodraeth leol ategu'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau presennol a pha gyllid ychwanegol a all fod ar gael y tu allan i'r setliad.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol – tua £4.5 biliwn – yn cael ei ddyrannu drwy'r Setliad Llywodraeth Leol heb ei neilltuo i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau statudol ac anstatudol. Bydd y cynnydd o £172m ar gyfer 2021-22 ar sail debyg am debyg yn helpu awdurdodau lleol i gwrdd â phwysau chwyddiant a'r galw. Ar ben hynny, mae tua £1 biliwn o gyllid grant penodol yn cael ei gynnal yn 2021-22 a bydd yn cael ei ddyrannu i gefnogi gwasanaethau lleol a nodwyd. Bydd y sicrwydd cynnar hwn ar ddyraniadau grant penodol yn golygu bod awdurdodau lleol yn gallu cynllunio eu hystod lawn o wasanaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Bydd llywodraeth leol hefyd yn elwa o nifer o ddyraniadau refeniw a chyfalaf ychwanegol a nodir yn y gyllideb ddrafft.

Mae cyllid i gefnogi'r costau ychwanegol a cholli incwm o ganlyniad i'r pandemig wedi cael ei ddarparu ar wahân drwy'r Gronfa Galedi Llywodraeth Leol yn 2020-21. Yn y gyllideb derfynol, mae'r Gronfa wedi cael **£206.6m** ychwanegol am 6 mis i ymestyn y gefnogaeth i amrywiaeth o fesurau gan gynnwys Prydau Ysgol am Ddim, digartrefedd, glanhau ysgolion, gorfodaeth, marwolaethau ychwanegol, taliadau hunanynysu, gofal cymdeithasol i oedolion, profion mewn cartrefi gofal, a Thâl Salwch Statudol.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda CLlLC ac awdurdodau lleol i ddeall pa gefnogaeth barhaus sydd ei hangen yn 2021-22 ar gyfer ymateb Llywodraeth Leol i effeithiau pandemig covid 19.

**Argymhelliad 17 - Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried a fyddai cyllid gwaelodol ar gyfer llywodraeth leol yn y Gyllideb Derfynol yn addas.**

**Ymateb: Derbyn**

Yn 2021-22, mae'r cyllid refeniw craidd ar gyfer llywodraeth leol yn darparu cynnydd o 3.8% ar sail debyg am debyg wrth gymharu â’r flwyddyn bresennol. Mae hyn yn cynrychioli hwb o £172m o un flwyddyn i’r llall ochr yn ochr â’r **£206.6m** ychwanegol ar gyfer estyniad o 6 mis i Gronfa Galedi’r Awdurdodau Lleol.

Ac ystyried y setliad uwch ar gyfer 2020-21, y dyraniadau arfaethedig a gyhoeddwyd ar gyfer 2021-22, penderfynwyd peidio â chynnwys cyllid gwaelodol ar gyfer eleni yn y gyllideb ddrafft. Rydym wedi ystyried yr holl ymatebion i’r ymgynghoriad ar y setliad yn ofalus ac, o ystyried y cynnydd cadarnhaol o 2% o leiaf ar gyfer pob awdurdod, nid ydym yn credu bod terfyn isaf yn briodol. Os yw terfyn isaf yn cael ei ariannu o’r adnoddau sydd ar gael i’r Setliad, mae’n golygu gostyngiadau i awdurdodau eraill.

Er ein bod yn llwyr werthfawrogi’r pwysau a’r heriau y mae llywodraeth leol yn eu hwynebu, mae’r setliad hwn, ynghyd â’r cyllid ychwanegol a ddarperir ar gyfer Cronfa Galedi’r Awdurdodau Lleol yn y Gyllideb derfynol, yn rhoi llwyfan sefydlog i awdurdodau lleol gynllunio eu cyllidebau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a CLlLC i fonitro’r sefyllfa wrth inni symud ymlaen drwy gydol y flwyddyn.

**Argymhelliad 18 - Mae’r Pwyllgor yn argymell, fel rhan o ystyriaeth y Gweinidog ynghylch dyraniadau pellach yn y Gyllideb Derfynol, fod Llywodraeth Cymru yn ystyried cyllid pontio ar gyfer gofal cymdeithasol yn 2021-22 fel bod darparwyr yn gallu talu’r costau ychwanegol parhaus a ddaw yn sgil darparu eu gwasanaethau yn ystod y pandemig.**

**Ymateb: Derbyn**

O ganlyniad i’r cymorth ychwanegol rydym wedi’i ddarparu yn 2020-21, nid ydym yn ymwybodol o gau un cartref gofal yng Nghymru o ganlyniad i’r pandemig, ac mae ein cymorth ariannol wedi galluogi staff i ganolbwyntio ar ddiogelwch yn hytrach na phryderon ariannol.

Rydym wedi parhau i fonitro effaith barhaus y pandemig ar ddarparwyr gofal cymdeithasol i oedolion a’r angen am gymorth parhaus. Er ein bod yn cydnabod ein bod yn disgwyl i’r cyfraddau heintio mewn cartrefi gofal fod yn is o lawer, o ganlyniad i gynnydd ein rhaglen frechu, mae’n amlwg y gallai’r sector yn wynebu heriau ariannol.
Yn y gyllideb derfynol, rydym felly wedi darparu £206.6m ychwanegol am estyniad o chwe mis i Gronfa Galedi Awdurdodau Lleol i dalu am ystod o gostau, gan gynnwys cyllid ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

**Argymhelliad 19 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro effaith y dyfarniad cyflog ar awdurdodau lleol unigol, gan gynnwys yr effaith debygol ar eu sefyllfa ariannol a darparu gwasanaethau.**

**Ymateb: Derbyn**

Er bod awdurdodau lleol wedi cael cynnydd o 3.8% ar gyfartaledd, nid ydym wedi cael unrhyw gyllid ychwanegol drwy fformiwla Barnett i ddarparu ar gyfer dyfarniadau cyflog ar draws y sector cyhoeddus o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y DU i rewi cyflogau'r sector cyhoeddus. Mae'r penderfyniad hwn yn annheg a dim ond yn lleihau'r cyllid sydd ar gael ar gyfer cyflogau yng Nghymru ac o ganlyniad nid oes gennym unrhyw adnoddau ychwanegol i ariannu codiadau cyflog yn 2021-22. Felly, bydd yn rhaid i unrhyw ddyfarniad cyflog arfaethedig gael ei dalu o adnoddau presennol awdurdodau lleol, a bydd angen i awdurdodau lleol ystyried yr effeithiau ar eu sefyllfa ariannol ac ar ddarparu gwasanaethau. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol ac Archwilio Cymru i fonitro sefydlogrwydd ariannol cyffredinol y sector ac awdurdodau unigol.

**Argymhelliad 20 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am y gwaith pellach sy'n cael ei wneud ar effaith y pandemig ar addysg pan fydd ar gael.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn ymwybodol iawn o'r heriau sylweddol sy'n dod i'r amlwg i ddysgwyr oherwydd y symud i ddysgu o bell, a'r tarfu ar addysgu a dysgu dros y flwyddyn ddiwethaf.

I fynd i'r afael â hyn, rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i gyd-ddatblygu cyfres o ymyriadau a strategaeth hirdymor a fydd yn cefnogi dysgwyr dros y blynyddoedd nesaf i gyflawni eu potensial. Bydd hyn yn cydnabod yn glir bwysigrwydd llesiant a'r cymhelliant i ddysgu, yn ogystal â'r dysgu ei hun. Bydd angen iddo hefyd gydnabod y pwysau ar athrawon ac ar ysgolion, gan y bydd angen lle a gallu i gefnogi dysgwyr i ddatblygu hyder a meithrin gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gwaith parhaus sy'n cael ei wneud a'r strategaethau ar gyfer cefnogi dysgwyr pan fyddant ar gael. Rhagwelwn y bydd trafodaethau'n cael eu cynnal tan y Pasg a byddwn yn disgwyl cyhoeddi ein cynigion ar ôl hynny.

**Argymhelliad 21 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod cynllun ailadeiladu Llywodraeth Cymru yn fwy uchelgeisiol o ran polisi a dyraniadau a'i fod yn cael sylw mwy sylweddol yn y Gyllideb Derfynol, a'r Cyllidebau Atodol dilynol.**

**Ymateb: Gwrthod**

O ran uchelgais, cafodd ein cynllun 'Ail-greu ar ôl COVID-19: yr Heriau a'r Blaenoriaethau', a gyhoeddwyd gan y Cwnsler Cyffredinol ar 6 Hydref 2020, ei siapio gan dros 2,000 o ymatebion a ddaeth i law yn sgil cais agored am dystiolaeth. Ar ben hynny, trefnodd y Cwnsler Cyffredinol chwe bwrdd crwn gydag arbenigwyr blaenllaw o Gymru a ledled y byd i sicrhau y gellid defnyddio'r sylfaen dystiolaeth ehangaf bosibl wrth ddatblygu'r Cynllun.

Fel yr amlinellwyd gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn ystod y gwaith craffu, ffocws uniongyrchol y cynllun oedd datblygu'r blaenoriaethau ar gyfer ail-greu yn y tymor byr, gan arwain y £320m o gyllid ail-greu a ddyrannwyd yn 2020-21.

Roedd y Gweinidog hefyd wedi amlinellu bod yr wyth blaenoriaeth hyn yn rhoi'r sylfaen ar gyfer adferiad yn y dyfodol gan adlewyrchu'r meysydd a amlygwyd gan bobl fel blaenoriaethau o dan amrywiaeth o sefyllfaoedd. Cafodd hyn ei ddangos yn ein Cyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22 gyda dyraniadau yn erbyn yr wyth blaenoriaeth hefyd yn sail i'n hegwyddorion o ddiogelu iechyd y cyhoedd a'r economi, adeiladu dyfodol mwy gwyrdd, a chreu newid i sicrhau Cymru sy'n decach ac yn fwy cyfartal.

Yn y gyllideb derfynol rydym hefyd wedi darparu ysgogiad cyfalaf o £224.5m sy'n adlewyrchu rôl buddsoddi mewn seilwaith o ran ysgogi galw economaidd yn y tymor byr i'r tymor canolig, ar yr un pryd â gwella ochr gyflenwi'r economi yn y tymor hirach, a gwella canlyniadau cymdeithasol ac amgylcheddol.

Felly, mae'r Gyllideb hon yn taro'r cydbwysedd rhwng bod yn uchelgeisiol a chyflawni ein gwerthoedd, ac mae hefyd yn rhoi sylfaen gref i'r weinyddiaeth nesaf adeiladu ar ein cynnydd yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

**Argymhelliad 22 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried a yw'r rhaglenni adfywio presennol yn dal i gynrychioli'r gwerth gorau, ac yn ystyried yr angen i ganolbwyntio mwy ar gynorthwyo twf a buddsoddiad mewn sgiliau a chyflogadwyedd, yn enwedig o ran annog economi werdd gynaliadwy.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi'n sylweddol mewn rhaglenni adfywio ledled Cymru. Mae'r Gyllideb ddrafft yn cynnwys cyllideb gyfalaf o dros £40m ar gyfer adfywio. Mae hyn yn cefnogi ein hymrwymiad i sicrhau bod creu lleoedd, adferiad gwyrdd a gwaith teg yn rhan annatod o'n holl benderfyniadau a gweithgareddau, ar sail buddsoddi mewn pobl a thrawsnewid digidol.

Mae'r Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, yn ail-ategu'r egwyddor "canol y dref yn gyntaf". Mae ein rhaglen Trawsnewid Trefi yn canolbwyntio ar sicrhau adferiad canol ein trefi drwy gynnig dewis ehangach o weithgareddau a defnydd gan gynnwys gofod busnes hyblyg, hamdden a gwasanaethau lleol sy'n gysylltiedig â sgiliau a chreu swyddi. Fel rhan o'r adferiad hwn, rydym yn dyrannu £16.5m i'w fuddsoddi mewn prentisiaethau, cyflogadwyedd a sgiliau a chynyddu'r addysg a hyfforddiant ar gyfer swyddi mewn galwedigaethau a sectorau sy'n tyfu drwy uwchsgilio ac ailsgilio.

Rydym hefyd yn glir ynghylch y rôl mae angen i'r sector cyhoeddus ei chwarae, a dyna pam mae'r Gyllideb ddrafft yn cynnwys dyraniad o £1.4m o gyfalaf yn 2021-22 i dreialu dull gweithredu sy'n golygu ei bod yn rhaid i awdurdodau'r sector cyhoeddus ystyried yr angen i roi iechyd a bywiogrwydd canol trefi wrth galon eu strategaethau lleoli a'u penderfyniadau buddsoddi.

Ar ben hynny, mae’r Gyllideb derfynol yn cynnwys pecyn ysgogiad cyfalaf o £224.5m, sy’n canolbwyntio ar ysgogi twf a swyddi yn y diwydiant adeiladu a’r gadwyn gyflenwi, i gefnogi’r uchelgais hwnnw. Mae’r pecyn hwn yn cynnwys dyraniad ychwanegol o £3.5m i’r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol a £1m arall o gyfalaf trafodiadau ariannol i’r Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol. Bydd hyn yn cefnogi mudiadau’r trydydd sector i brynu a gwella asedau, tir ac adeiladau cymunedol, gan gynnwys rhai yng nghanol trefi.

**Argymhelliad 23 - Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio i symleiddio’r broses ar gyfer cyrchu pecynnau cymorth busnes ac yn cynnig help a chyfeirio gwell ar gyfer busnesau llai, gan gynnwys ymagwedd “dim dewis anghywir” ar gyfer ymgeiswyr. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried adolygu’r dulliau cyfathrebu ar gyfer y cynlluniau hyn.**

**Ymateb: Derbyn**

Busnes Cymru yw gwasanaeth cymorth busnes dwyieithog Llywodraeth Cymru a chafodd ei lansio ym mis Ionawr 2013 a’i adnewyddu ym mis Ionawr 2016. Mae’r gwasanaeth yn bwynt cyswllt i gael gwybodaeth, cyngor a chymorth i fusnesau gan y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae’r un cyswllt yn ei gwneud hi’n haws i ficrofusnesau a busnesau bach a chanolig Cymru, gan gynnwys entrepreneuriaid cymdeithasol ac entrepreneuriaid uchelgeisiol o bob oed, gael gafael ar yr wybodaeth, y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i gychwyn eu busnesau a’u datblygu.

Mae gwefan Busnes Cymru yn rhoi mynediad at amrywiaeth eang o wybodaeth, cyngor ac arweiniad mewn un lle. Yn ogystal â chymorth dros y ffôn ac e-bost, mae Busnes Cymru yn darparu swyddogaeth ‘sgwrsio byw’ ddwyieithog ar gyfer defnyddwyr y wefan ac mae’n gweithredu fel porth ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau cymorth busnes gwahanol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys WEFO, Cyswllt Ffermio, y Porth Sgiliau a Hyrwyddwr Cyflenwyr Trafnidiaeth Cymru.

Rydym wedi gweithio i symleiddio’r system a gwella’r mynediad yn barhaus er mwyn cael gafael ar becynnau cymorth busnes. Yn y rownd bresennol o gyfyngiadau Covid, mae cyllid sy’n cael ei ddyrannu o dan y Gronfa Cadernid Economaidd yn cael ei dalu’n uniongyrchol i fusnesau ar ôl cwblhau cais/cofrestru ar-lein syml. Mae dros 90% o gyllid y Gronfa Cadernid Economaidd wedi cyrraedd busnesau bach a chanolig yn gyflym. Gall unrhyw unigolyn sydd â hygyrchedd digidol cyfyngedig gysylltu â’r Llinell Gymorth i gael rhagor o ddewisiadau a chael cymorth.

Drwy gydol y pandemig, bu dros 8 miliwn o ymweliadau â gwefan Busnes Cymru ac mae wedi delio â bron i 50,000 o ymholiadau. Mae’r cyfryngau ar gyfer cael gafael ar gymorth yn cael eu hadolygu a’u mireinio’n rheolaidd gan ddefnyddio adborth gan gwsmeriaid, partneriaid a rhanddeiliaid. Defnyddir amrywiaeth o weithgareddau i hyrwyddo mynediad at y gwasanaeth, gan gynnwys datganiadau i’r wasg, astudiaethau achos cleientiaid, radio, sylw yn y wasg ddigidol ac ysgrifenedig, hysbysfyrddau a threnau/bysiau. Rydym hefyd yn defnyddio ein rhwydweithiau rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth, fel gweithio’n agos gydag awdurdodau lleol ar y grantiau sy’n gysylltiedig ag ardrethi annomestig, cyrff cynrychioladol gan gynnwys y

Ffederasiwn Busnesau Bach drwy eu haelodau, a chontractwyr Busnes Cymru sy'n darparu'r gwasanaeth cymorth craidd a'r Hybiau Menter.
Mae Bwrdd Strategol Busnes Cymru yn cynnwys cynrychiolwyr o Sefydliad y Cyfarwyddwyr, Ffederasiwn y Busnesau Bach, y sector busnesau bach a mentrau cymdeithasol sy'n hyrwyddo gwasanaeth Busnes Cymru ac yn hyrwyddo'r hyn mae'n ei gynnig.

**Argymhelliad 24 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut mae'r pandemig wedi newid, neu ailgadarnhau, ei blaenoriaethau o ran cysylltedd digidol. Dylid tynnu sylw at newidiadau yn y cyswllt hwn yn y Gyllideb Derfynol.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r pandemig wedi tanlinellu pwysigrwydd cysylltedd digidol. Ar hyn o bryd rydym yn datblygu Strategaeth Ddigidol newydd ar gyfer Cymru, sy'n nodi ein huchelgais i harneisio'r digidol, data, technoleg a deallusrwydd artiffisial er lles pobl Cymru. Er nad yw cysylltedd digidol yn fater datganoledig, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi darparu cysylltedd digidol hanfodol i gartrefi ac i fusnesau ledled Cymru.

Drwy'r gyllideb hon rydym yn darparu £10m i awdurdodau lleol a mentrau cymdeithasol i gefnogi prosiectau band eang mewn ardaloedd nad ydynt yn cael gwasanaeth band eang cyflym iawn ar hyn o bryd, yn ogystal â'r £56m ar gyfer cam nesaf cyflwyno band eang. Rydym hefyd yn darparu £4.9m yn 2021-22 i'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, a fydd yn hybu arloesi a dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr mewn gwasanaethau cyhoeddus digidol yng Nghymru, gan gefnogi rhaglenni hyfforddiant arbenigol a sgwadiau digidol.

Rydym yn cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i egluro gwariant yng Nghymru yn y dyfodol yn sgil ei rhaglen £5bn i gyflawni cysylltedd gigabit i bob eiddo yn y DU. Byddwn yn parhau i fonitro'r achos dros ragor o fuddsoddiad wrth inni symud ymlaen drwy'r flwyddyn ariannol.

**Argymhelliad 25 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut mae gwariant yn y Gyllideb Ddrafft ar ganol trefi yn manteisio ar y cyfleoedd sy'n deillio o'r pandemig (ee cynyddu gweithio gartref).**

**Ymateb: Derbyn**

Mae ein holl agenda Trawsnewid Trefi yn cefnogi canol ein trefi i ailddychmygu ac ailddyfeisio eu hunain a manteisio ar unrhyw gyfleoedd i'w helpu i ffynnu a dod yn fwy cynaliadwy. O ganlyniad i'r pandemig, rydym yn cydnabod bod angen inni sicrhau ein bod yn gallu cynyddu nifer yr ymwelwyr a hygyrchedd, a gwneud cyfraniad hollbwysig i ganol ein trefi drwy leoli cyrff cyhoeddus, sefydliadau partner a gwasanaethau a chyfleusterau cysylltiedig ynddynt er mwyn cefnogi adfywio a gweithgarwch economaidd, cynyddu nifer yr ymwelwyr, ehangu'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael, a sicrhau manteision llesiant, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Mae nifer o'r prosiectau rydym eisoes yn eu cefnogi fel rhan o'n buddsoddiad Trawsnewid Trefi £110 miliwn wedi cael eu targedu at ddarparu mannau cydweithio ac rydym yn cysylltu'r gwaith hwn yn agos iawn â'n polisi gweithio o bell.

Mae Grŵp Gweithredu Gweinidogol Canol Trefi'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol yn sicrhau bod unrhyw syniadau a chyfleoedd newydd sy'n deillio o'r pandemig yn cael eu cyflwyno gan amrywiaeth o arbenigwyr ac arweinwyr polisi.

**Argymhelliad 26 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dangos sut mae wedi newid ei hagwedd at wariant argyfwng hinsawdd yng ngoleuni'r pandemig a sut mae'n bwriadu cynnal yr hyblygrwydd i addasu i newidiadau mewn ymddygiad wrth gyflawni ei hamcan o adeiladu 'dyfodol mwy gwyrdd'.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydym wedi bod yn glir nad yw ail-greu'r economi a'n gweithredu ar newid yn yr hinsawdd yn annibynnol ar ei gilydd. Mae angen inni sicrhau'r adferiad gwyrdd a fydd yn cynnal Cymru i'r dyfodol. Mae dyraniadau ychwanegol penodol yn y gyllideb ddrafft – £80m o gyfalaf a £17m o gyllid refeniw – i gefnogi mesurau newid yn yr hinsawdd yn uniongyrchol. Mae hyn ar ben y cyllid sydd eisoes wedi cael ei gario ymlaen o flynyddoedd blaenorol gan gynnwys y pecyn cyfalaf 'gwyrdd' gwerth £140m a gyhoeddwyd yng Nghyllideb y llynedd a'n buddsoddiadau helaeth mewn trafnidiaeth gyhoeddus i enwi dim ond rhai. Rydym wedi mynd gam ymhellach fyth yn ein Cyllideb derfynol – er enghraifft drwy gynyddu'r buddsoddiad cyfalaf yn ein Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yn 2021-22 i £50m

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi nodi yn ei dadansoddiad dangosol o gyllideb ddrafft 2020-21 bod llinellau gwariant allweddol sy'n ymwneud â datgarboneiddio wedi codi tua 28% o un flwyddyn i'r llall, gan awgrymu cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen parhau i fod yn hyblyg er mwyn gallu ymateb yn gyflym i newidiadau mewn ymddygiad a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg. Yn ddiweddar, rydym wedi cael rhagor o gyngor gan Bwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd, sy'n glir ynghylch y dystiolaeth bresennol bod llwybr credadwy, ymarferol a fforddiadwy at sero net ar gyfer Cymru erbyn 2050. Rydym yn adolygu'r cyngor hwn ar hyn o bryd, a sut gall ein cynlluniau cyllidebol yn y dyfodol helpu i gyflawni ar y llwybr hwnnw.

**Argymhelliad 27 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu datblygu asesiad cynhwysfawr o effaith ei phenderfyniadau gwario ar garbon ac yn ystyried sut gall oresgyn y cyfyngiadau a nodwyd.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydym wedi cymryd camau sylweddol i wella ein dealltwriaeth o effaith ein penderfyniadau gwario ar garbon yn y rownd hon o'r Gyllideb. Mae'r asesiad dangosol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft, a'r dadansoddiad ehangach a gyhoeddwyd fel rhan o ddogfennau'r Gyllideb derfynol, yn rhoi'r sail inni

adeiladu ein dealltwriaeth o allyriadau sy'n gysylltiedig â nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu prynu drwy gyllidebau Llywodraeth Cymru.  Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cydnabod y camau hyn. Roedd yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi dechrau rhaglen waith i ddeall yn well lefel yr allyriadau carbon sy'n deillio o'r penderfyniadau cyllidebol.
Rydym yn cydnabod bod cyfyngiadau i'r dadansoddiad hwn, ac mae mwy i'w wneud i asesu ac i fesur yr allyriadau carbon neu'r arbedion sy'n gysylltiedig â'r canlyniadau ymddygiadol sy'n deillio o wariant Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r gwariant ei hun. Bydd angen i'r adrannau gynnal asesiadau o'r fath wrth ddatblygu cynigion gwario, ac yna eu hystyried fel rhan o benderfyniadau cyllidebol.

Fodd bynnag, fel y nododd Llywodraeth Cymru yng nghyllideb y llynedd, nid yw asesu effaith carbon ehangach cyllido polisïau Llywodraeth Cymru drwy'r gyllideb bob amser yn dasg syml. Er enghraifft, rydym yn parhau i fuddsoddi mewn datblygu'r seilwaith gwefru cerbydau trydan yng Nghymru. Bydd cysylltiad agos rhwng effaith y buddsoddiad yma a'r nifer sy'n defnyddio cerbydau trydan yn fwy cyffredinol, sydd maes o law yn ddibynnol ar ddewisiadau rheoleiddio Llywodraeth y DU o ran cyfyngu ar gerbydau petrol a disel traddodiadol.

**Argymhelliad 28 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwella'r broses o gyfathrebu cynlluniau cymorth ariannol ac yn adolygu'r prosesau ymgeisio er mwyn hwyluso mynediad at gymorth, yn enwedig i ymgeiswyr agored i niwed, gan ystyried gweithredu dull "dim drws anghywir" ar gyfer ymgeiswyr.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno ar gyfres o gamau gweithredu ymarferol mewn ymateb i'r pwysau ariannol difrifol y mae llawer o deuluoedd yn eu hwynebu nawr o ganlyniad i'r pandemig. Mae'r camau gweithredu hyn wedi cael eu nodi yn ein Cynllun Gweithredu Cynyddu Incwm.  O dan y cynllun, rydym yn cefnogi amrywiaeth o weithgareddau i helpu teuluoedd yng Nghymru i hawlio'r holl gymorth mae ganddynt hawl iddo, gan gynnwys datblygu dull gweithredu 'dim drws anghywir' drwy system gymorth fwy integredig sy'n hyrwyddo atgyfeiriadau cynnes rhwng asiantaethau. Rydym hefyd yn datblygu canllawiau i fabwysiadu 'un pwynt mynediad' at gymorth, gan gysylltu ar draws asiantaethau allweddol, gwasanaethau a rhaglenni cyflogadwyedd.

Rydym hefyd yn gweithio gyda Chyngor ar Bopeth drwy'r Gronfa Gynghori Sengl (SAF) i annog pobl i gael gafael ar ac ymgysylltu'n effeithiol â Phartneriaid Cyngor er mwyn canfod, cefnogi a datrys eu problemau a gwella eu gwytnwch ariannol.
Mae ein Cronfa Cymorth Dewisol yn darparu taliadau brys i unrhyw un 16 oed a hŷn sy'n wynebu caledi ariannol difrifol. Mae'r cynllun yn cael ei gefnogi gan rwydwaith o fwy na 570 o fudiadau rheng flaen sy'n ymwneud yn weithredol â chodi ymwybyddiaeth ac sy'n allweddol i sicrhau bod y gefnogaeth hon yn cyrraedd y rheini y bwriedir iddi eu helpu.  Rydym yn darparu £10.5m ychwanegol ar gyfer chwe mis cyntaf 2021-22 i barhau i lacio rheolau'r Gronfa er mwyn ymateb i effeithiau COVID-19 ar aelwydydd sy'n dioddef caledi ariannol difrifol, ochr yn ochr â mesurau sy'n ceisio cynyddu incwm aelwydydd a gwella cydnerthedd ariannol.

Rydym wedi ymrwymo i godi ymwybyddiaeth o’r Gronfa, gan gynyddu’r nifer sy’n manteisio arni drwy bartneriaid fel awdurdodau lleol, banciau bwyd a’r cyfryngau cymdeithasol i sicrhau bod popeth yn cael ei wneud i ganfod a chyrraedd grwpiau targed.

**Argymhelliad 29 - Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut gall wella’r berthynas rhwng y dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus yng Nghymru a’r agenda atal.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Pwrpas y dadansoddiad hwn yw ymchwilio i bwy sy’n cael budd o wariant cyhoeddus ar iechyd, addysg a gofal cymdeithasol ar gyfer yr henoed. Yn benodol, mae’r gwaith hwn yn edrych ar effaith gwariant cyhoeddus ar aelwydydd ar draws y dosbarthiad incwm. Yn ogystal â darparu rhai canlyniadau eang i Gymru, mae’r gwaith hwn wedi galluogi Llywodraeth Cymru i archwilio cryfderau a gwendidau dadansoddiad o’r fath.

Gallai’r math hwn o ddadansoddiad chwarae rhan yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Y nod yw ei gynnwys yn y gyfres o wybodaeth sy’n cyd-fynd â chyllidebau yn y dyfodol. Bydd ei allu i gyfrannu at benderfyniadau cyllidebol yn dibynnu ar argaeledd data mewn meysydd penodol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu’r gwaith modelu gyda’r bwriad o wella ac ymestyn y dadansoddiad lle bo hynny’n bosibl. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys ystyried sut gellir ymestyn y dadansoddiad i edrych ar wahanol grwpiau o bobl a rhoi sylw i fwy o feysydd gwariant cyhoeddus.

Byddwn yn ystyried sut gallwn wella’r berthynas rhwng y dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus yng Nghymru a’r agenda atal, ond mae natur y gwariant ar yr agenda atal yn debygol o olygu bod sefydlu perthynas glir a mesuradwy rhwng gwariant a buddiolwyr yn y dyfodol yn gymhleth ac yn heriol.

**Argymhelliad 30 - Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Asesiadau Effaith Integredig Strategol yn y dyfodol yn cael eu cryfhau i egluro sut mae achosion tlodi ac effeithiau amrywiol ar wahanol grwpiau ac anghenion yn dylanwadu ar ddyraniadau gwariant Llywodraeth Cymru.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn dal wedi ymrwymo i adolygu sut rydym yn defnyddio dull integredig i asesu effeithiau’r gyllideb ddrafft drwy’r Asesiad Effaith Integredig Strategol fel sy’n cael ei ddangos gan y camau rydym wedi’u cymryd yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22 i wella’r ffordd rydym yn cyflwyno effaith ein penderfyniadau gwario yn y gyllideb, gan gynnwys y crynodeb o’r dystiolaeth am effeithiau anghymesur ar wahanol nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys rhywedd, hil ac anfantais economaidd-gymdeithasol, gyda throednodiadau cysylltiedig at ffynonellau tystiolaeth berthnasol.

Fel y nodir yn ein Cynllun Gwella'r Gyllideb, rydym wedi ymrwymo i wella ein prosesau o ran sut rydym yn blaenoriaethu ein cynigion gwario. Fel rhan o hyn, byddwn yn ystyried mewn cyllidebau yn y dyfodol sut gallwn gymryd rhagor o gamau i amlygu'n fwy penodol sut mae dyraniadau gwario penodol yn ymateb i dlodi a'r gwahanol effeithiau ar wahanol grwpiau.

**Argymhelliad 31 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut bydd yn cymryd agwedd fwy sensitif i rywedd tuag at ei chyllidebau yn y dyfodol ac yn dangos sut mae penderfyniadau gwariant a pholisi yn cael eu llywio gan yr effaith ar rywedd a grwpiau eraill, yn enwedig o gofio'r dystiolaeth y bydd effaith economaidd y pandemig yn effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor yn cydnabod canlyniadau cadarnhaol cynllun peilot cyllidebu ar sail rhyw y Cyfrif Dysgu Personol a'i ddylanwad ar ddyraniad eleni.
Fel yr amlinellwyd yn ein Cynllun Gwella'r Gyllideb, rydym wedi ymrwymo i adeiladu ar ein dull peilot drwy fabwysiadu dull gweithredu sy'n 'canolbwyntio ar y rhywiau' mewn meysydd polisi eraill yng nghyllidebau'r dyfodol. Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried meysydd polisi lle ceir tystiolaeth o effaith anghymesur ar grwpiau penodol, a sut gall unrhyw ganfyddiadau gyfrannu at benderfyniadau polisi a gwariant Llywodraeth Cymru yn y meysydd hynny.

Mae hi hefyd yn bwysig cydnabod bod ein dull gweithredu wedi cael ei ddatblygu drwy ymgysylltu â Llywodraeth Gwlad yr Iâ, sy'n cael ei chydnabod fel arweinydd rhyngwladol ar gyllidebu ar sail rhyw. Ar y dechrau aeth hithau hefyd ati i dreialu dull gweithredu mewn meysydd polisi penodol, gan fod hon yn ffordd hollbwysig o ddangos gwerth cyllidebu ar sail rhyw. Fodd bynnag, mae wedi cydnabod nad oedd hon yn broses gyflym. Roedd hi wedi cymryd saith mlynedd rhwng y cynlluniau peilot cychwynnol a gweithredu'n gynhwysfawr ac roedd hyn wedi cael ei gefnogi drwy basio 'cyfraith cyllideb organig' newydd.

**Argymhelliad 32 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog Cyllid yn darparu diweddariad byr ar effaith rhagolygon diwygiedig y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a fydd yn cael eu cyhoeddi gyda Chyllideb y Deyrnas Unedig yn ystod y ddadl ar y Gyllideb Derfynol ar 9 Mawrth.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ystod y Ddadl ar y Gyllideb derfynol ar 9 Mawrth am ragolygon diwygiedig y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i'w cyhoeddi ochr yn ochr â Chyllideb Llywodraeth y DU ar 3 Mawrth.

**Argymhelliad 33 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu mwy o fanylion am y trafodaethau a gynhaliwyd gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ar gyllid sy'n ymwneud â throsglwyddo o golofn i golofn, ac yn cynnal asesiad effaith ar yr effeithiau y bydd gostyngiad yn y**

**cyllid cyffredinol sydd ar gael i amaethyddiaeth yn ei chael ar ffermio a'r economi wledig yn ehangach.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi ysgrifennu at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys droeon i amlinellu ein pryder dwys ynghylch y cyllid fferm newydd a gyhoeddwyd yn yr Adolygiad o Wariant, sy'n golygu bod ffermwyr a chymunedau gwledig yng Nghymru £137m yn brin.

Ar 27 Tachwedd, ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys i adolygu'r penderfyniad ar gyfer trosglwyddo o golofn i golofn, ac i ofyn am adolygu lefel y cyllid fferm ar gyfer 2020-21 i gynnwys y £42m hwn. Cododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd y mater eto mewn cyfarfod gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ym mis Rhagfyr. Mae proses yr Amcangyfrifon Atodol wedi cadarnhau bod y cais i drosglwyddo o golofn i golofn wedi cael ei wrthod. Nid yw hyn yn cydnabod bod y penderfyniad i drosglwyddo 15% o golofn i golofn ar gyfer datblygu gwledig yn benderfyniad gweithdrefnol i ddiwallu rhwymedigaethau'r UE i roi gwybod iddo am gyfran ein cyllideb PAC newydd ddomestig 2020-21 y byddem yn ei chario ymlaen i 2021-22 i fuddsoddi mewn datblygu gwledig ehangach.

Ar 21 Rhagfyr cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig y byddai'n blaenoriaethu cyllid i ffermwyr. Roedd hyn yn adlewyrchu'r straen ychwanegol a roddwyd ar y diwydiant yn sgil ymadael â'r UE a Covid-19. Bydd cyfanswm y terfyn uchaf ar gyfer taliadau uniongyrchol yn £238m i ddarparu'r un lefel o daliadau uniongyrchol i ffermwyr yn 2021, ag a ddarparwyd yn 2020. Petai Llywodraeth y DU wedi darparu cyllid llawn yn lle cyllid yr UE, byddai Cymru mewn sefyllfa well i fuddsoddi yn ein rhaglen datblygu gwledig ddomestig. Byddwn nawr yn blaenoriaethu defnyddio'r cyllid datblygu gwledig cyfyngedig ar gyfer 2021-22 i ddatblygu rhaglen a fydd yn targedu buddsoddiad yn y dyfodol ar Adfer ar ôl Covid ac ymadael â'r UE er mwyn cefnogi ein hamgylchedd a'n cymunedau gwledig.

Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi dyrannu £2.6m i ddechrau'r rhaglen cymorth fferm newydd a ariennir ar ôl ymadael â'r UE ac argymhellion adolygiad BEW, ochr yn ochr â chyflawni'r ymrwymiadau sy'n weddill o dan y cynlluniau presennol sy'n cael eu hariannu gan yr UE hyd at 2023.

**Argymhelliad 34 - Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ymdrechion a wnaed gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig, ac mae'n argymell bod diweddariad yn cael ei ddarparu ar sut bydd cyllid yn cael ei ddyrannu yn y dyfodol a pha rôl fydd gan Lywodraeth Cymru yn y broses.**

**Ymateb: Derbyn**

Nid yw Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu'n ystyrlon â Llywodraeth Cymru ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin hyd yma. Mae cynigion cychwynnol ar gyfer prosbectws ar gyfer y cynllun peilot yn y Flwyddyn Newydd bellach wedi cael eu gwthio'n ôl i fis Mawrth, ac nid yw Llywodraeth y DU wedi rhoi unrhyw syniad o beth fydd y dulliau o ddyrannu cyllid na rôl Llywodraeth Cymru.

Mae'r fframwaith ar lefel y DU ar gyfer dyfodol y gronfa hefyd wedi cael ei ohirio tan yr haf, o'r ymrwymiad gwreiddiol i gyhoeddi yn y gwanwyn. Nododd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar 25 Tachwedd y byddai cyfarfod yn dilyn rhwng y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd ac Ysgrifenyddion Cymunedau a Phensiynau'r DU i drafod blaenoriaethau buddsoddi a strwythurau cyflawni ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Ni chafwyd gwahoddiad o'r fath hyd yma.

Rydym hefyd wedi gweld Llywodraeth y DU yn cyhoeddi y bydd yn defnyddio ei phwerau o dan Ddeddf y Farchnad Fewnol i wario mewn meysydd datganoledig drwy ei Chronfa Codi'r Gwastad yn lle bod Cymru'n cael ei chyfran deg o gyllid drwy fformiwla Barnett fel y nodwyd yn yr Adolygiad o Wariant. Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu bod Llywodraeth y DU yn penderfynu ar faterion datganoledig yng Nghymru heb fod yn atebol i'r Senedd ar ran pobl Cymru sydd, yn ein barn ni, yn tanseilio datganoli mewn modd ymosodol ac anghyfansoddiadol.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-RE-0943-21

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru

3 Mawrth 2020

Annwyl Llywydd,

**Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2021**

Heddiw, rwyf wedi gwneud y Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2021 o dan adran 24(1) and 78(1) o'r Gorchymyn Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ('Deddf 2017') 2017 a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2021. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig yr wyf yn bwriadu eu gosod pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn a nodwyd yn adran 25(2) o Ddeddf 2017 mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn o fewn 28 diwrnod ar ôl iddo gael ei wneud, heb gynnwys diwrnodau pan fydd y Senedd ar doriad o bedwar diwrnod neu fwy neu wedi'i diddymu, er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol. Gallai fod o gymorth i chi wybod fy mod yn bwriadu cynnal y ddadl ynglŷn â'r is-ddeddfwriaeth hon yn y cyfarfod llawn ar 23 Mawrth 2021.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad , Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau. a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 10

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon